# Y BIGWN

CYF. 35 RHIF 7 Tachwedd 2023 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*

## Dathlu Tair Gŵyl



Côr Meibion Dinbych yn Dathlu 35 mlynedd—hanes tudalen 18\




Nia—Gŵyl Eirin, Dinbych ac isod Chris yn coginio





Gŵyl Gwrw Dinbych—hanes tudalen 19





Noson Gymdeithas Gymraeg gyda'r gŵr gwadd Arfon Wyn, gydag ef mae Dyfan, Dilwyn, Huw, Gaynor a Lilian—



Noson Siân Rees yn y Llyfrgell—tudalen 7



Llongyfarchiadau i Wil a Catrin ar achlysur eu priodas ar Ddydd Sadwrn Medi16eg yng Nghapel Mawr, ac yna i ddilyn ym Mhlas Isaf, Corwen . Dymuniadau gorau oddi wrth y teulu.



Gwaith Mark Williams a fu'n cadw noson Gymdeithas Caledfryn—tudalen 4




Côr Llansilin a fu'n cadw Cyngerdd yn Capel Y Fron—hanes tudalen 8

## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**John Davies (dros dro)**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Nerys Ann Roberts
01745 814950

**GOLYGYDDION:**
Erfyl Williams (814832)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (813387)
Martha Cordiner (813387)
Llifon Jones (814677)
Gwenan Ellis (813106)

**YSGRIFENNYDD**
Sian Rogers
siani77.sr@gmail.com

**TRYSORYDD**
Llifon Jones
Sŵn y Nant, 31 Y Maes,
Dinbych
LL16 3JR
llifonjones9@gmail.com

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
gwybod@ybigwn.cymru

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
hywel@hywel1310.plus.com

ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

**'Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'**

CYMRAEG

**Golygydd Mis RHAGFYR
Morgan Cordiner**

# Gair gan y Golygydd

Dyma'r tro cyntaf i mi fod yn olygydd unrhyw bapur neu gylchgrawn. Efallai y byddwch yn gobeithio mai hwn fydd y tro olaf wedi i chi ddarllen y rhifyn yma ! Roeddwn yn teimlo bod rhaid i mi ymateb i sylwadau John Davies (cadeirydd y Bigwn) yn ystod cyfarfod fis Mehefin diwethaf pan ddywedodd ei bod yn argyfwng ar y Bigwn. Mae prinder o safbwynt golygyddion, pobl i gyfrannu erthyglau, ac yn wir, prynwyr i'r papur. Yn anffodus nid yw'r anawsterau yma ddim yn gyfyngedig i'r Bigwn. Wrth olygu'r Bigwn, am y tro cyntaf, dwi wedi dod yn ymwybodol o'r unigolion sy'n cyfrannu'n gyson i'r papur – diolch o galon i chi. Mae eich cyfraniad yn cael ei werthfawrogi. Tybed a oes posib i unigolion eraill gyfrannu at y papur mewn unrhyw ffordd – beth am gynnig erthygl i'r Bigwn, ar unrhyw destun, a'i anfon at olygydd y mis neu'i e-bostio at gwybod@ybigwn.cymru Dewis arall fyddai gyrru lluniau a chyfarchion. Mae pob eitem yn cyfoethogi cynnwys y Bigwn – ein papur ni.

Er tristwch gweld yr haf yn dod i ben, a fy ngobeithion o handicap golff is, da yw gweld bod cymaint o gymdeithasau wedi dechrau ar eu harlwy ar gyfer misoedd y gaeaf. Cafwyd bwrlwm yn neuadd y dref yn ystod y mis diwethaf gyda sawl gŵyl yn cael ei chynnal yno. Daeth cannoedd yno i fwynhau digwyddiadau'r ŵyl gwrw, yr ŵyl eirin, a dathlu côr meibion Dinbych yn 35 oed. Mae nifer o gymdeithasau eraill wedi llunio eu rhaglenni ar gyfer y misoedd nesaf ac mae sawl adroddiad yn y rhifyn yma i nodi digwyddiadau'n eu cyfarfodydd cyntaf. Beth am ymuno hefo un ohonyn nhw ? Dwi'n siŵr y bydd yna groeso cynnes i chi yno. Mae cymdeithasu mwy yn fuddiol i bob un ohonom ni.

Fel trysorydd y Bigwn dwi'n ymwybodol iawn na fyddai'n bosib cyhoeddi'r Bigwn heb gyfraniadau gan unigolion, tanysgrifwyr, a haelioni busnesau lleol. Rydym yn ffodus iawn bod cynifer ohonynt yn fodlon ein cefnogi yn enwedig o gofio'r hinsawdd economaidd bresennol. Mae Nerys Ann yn llwyddo'n rhyfeddol i argyhoeddi busnesau lleol bod hysbysebu'n y Bigwn o fudd iddynt – diolch iddi am ei gwaith diflino ar yr agwedd yma. Wrth gwrs os ydyn nhw'n cefnogi ni, mae'n bwysig ein bod ni'n eu cefnogi nhw.

Hwyl am y tro,

Llifon

**Theatr Twm o'r Nant**
**Nos Iau 9ed Tachwedd 7.30y.h.**
**Cwmni Mewn Cymeriad**

**Yn cyflwyno**

**Annie Cwrt Mawr**



*Drama un ferch yn seiliedig ar fywyd Annie Jane Hughes Griffiths. Ymgyrchydd dros heddwch a roddodd lais i fenywod Cymru ar gydraddoldeb a materion rhyngwladol*

**Tocynnau ar gael yn Siop Clwyd**
**Neu drwy ffonio 01745 812349**

## Bag y Bigwn

| | |
|---|---|
| Janice - er cof am mam a dad, | £10 |
| Gwenan ac Emyr, Drws y Coed | £10 |
| Dienw | £10 |
| Eirwyn a Mary Jones | £10 |
| Ann Jones | £25 |

**Dyddiad cau Y BIGWN mis RHAGFYR**
**Pob dim i gyrraedd e-bost**
**Y Bigwn - gwybod@ybigwn.cymru erbyn TACHWEDD 17**

## Capel Y Fron

Er i ni gael ein siomi nad oedd y Parch Nerys Griffiths yn gallu dod atom bore Sul Medi 24ain, yr oedd Mr Stan Lyall wedi trefnu gwasanaeth ar ein cyfer, ar fyr rybudd, gyda'i gyd-swyddogion yn ei gynorthwyo sef Mr Gwilym Luke Jones, Mrs Nerys Ann Roberts ac Angharad Rhys ac fe gawsom wasanaeth bendithiol iawn gyda Catrin Warren yn cyfeilio.

Ein Gweinidog oedd gyda ni bore Sul Hydref 1af ac fe wnaeth Mr Gwilym Williams, llywydd y mis, estyn ein cydymdeimlad fel Eglwys gyda Mrs Liz Edwards sydd wedi colli ei chwaer yng nghyfraith Gwyneth Edwards. Yr organydd oedd Mrs Eiri Jones.

Gŵyl Diolchgarwch

Bore dydd Iau Hydref 6ed. Yn ôl yr arfer fe gawsom gyfarfod bendithiol iawn gyda John Geraint, Aelwyn Lloyd, a Gwilym Williams wedi paratoi ac yn barod i gymryd rhan ac fe wnaeth Wendy Lloyd Jones ledio emyn a chyhoeddi'r fendith gyda Eiri Jones yn cyfeilio ar yr organ.

Braf iawn oedd gweld y capel yn llawn nos Wener Hydref 6ed i wrando ar gôr cymysg Llansilin yn cadw noson amrywiol ardderchog. Yr oedd y trefniadau wedi ei gwneud gan Mr John Geraint Jones a Mrs Carolyn Thomas wnaeth estyn croeso a diolch i'r côr a'i harweinydd Mrs Iona Jones. Roedd Eiri Jones a Wendy Jones wedi gwneud trefniadau iddynt gael lluniaeth cyn mynd adre. Diolch i bawb am bob cyfraniad.

Ein gweinidog y Parch Andras Iago oedd yn gwasanaethu yn y Capel Mawr ar fore Sul Hydref 8fed gyda Dorothy Rogers yn cyfeilio.

Ar fore Sul Hydref 15ed yr oedd yn braf iawn cael croesawu Miss Llinos Mary Jones atom ac fe wnaeth Wendy Lloyd Jones ddiolch a dymuno'n dda iddi. Yr organydd oedd Mrs Carolyn Thomas.

Cymdeithas y Gorlan

Yr oedd trefniadau wedi ei gwneud i gyfarfod prynhawn dydd Mercher Hydref 15ed gyda Dr Hywel Watkin yn rhoi hanes gwaith yr elusen Oergell Gymunedol Dinbych, ond fe ddaeth y newyddion trist y bore am farwolaeth sydyn ac annisgwyl Mr Gwilym Williams, Nant y Coed. Felly, penderfynwyd dileu'r cyfarfod. Roedd Mr Williams yn flaenor a dechreuwr canu yng Nghapel y Brwcws, ac wedi iddynt gau, fe ddaeth o a Mrs Williams yn aelodau yn Eglwys y Fron a'r Brwcws lle'r oedd yn flaenor gyda ni. Yr ydym yn cydymdeimlo yn fawr iawn gyda Mrs Williams a'i ddwy ferch, Carol a Linda a'i teuluoedd

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

CYMRAEG

Yn gweithio i gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.

Menter Iaith Sir Ddinbych

01745 812822

menter@MISirDdinbych.cymru

Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

# Cymdeithas Caledfryn



Cafwyd noson lwyddiannus iawn i agor tymor newydd Cymdeithas Caledfryn yn y Guildhall, Dinbych ar nos Wener Medi 29ain.Cadeirydd y noson oedd Aled ac ar ôl croesawu pawb aeth ati i gyflwyno'r siaradwr gwadd sef Mark Williams o Nant y Lladron, Bylchau.

Mae hanes bywyd Mark yn un arbennig iawn a dechreuodd drwy gyfeirio at ddyfyniad sy'n bwysig iddo sef 'Dim esgusodion, gellir gwneud, darganfod ffordd'(no excuses, can do, find a way). Yn 1982 wrth feicio adre o Ysgol Dewi Sant, y Rhyl bu mewn gwrthdrawiad â char a chanlyniad y ddamwain ddifrifol oedd iddo golli ei goes.

Yn fachgen deg oed ac yn glaf yn Ysbyty Glan Clwyd roedd yn treulio amser yn y pwll hydro-therapi ac yno cyfarfu â Mick Jones, hyfforddwr Clwb Nofio y Rhyl. Roedd Mick yn awyddus i'w hyfforddi ac yn fuan datblygodd Mark i fod yn nofiwr talentog. Enillodd fedalau arian ac efydd yng Ngemau Paralympaidd Seoul yn 1988 ac yn Miami yn 1989 daeth yn bencampwr byd.

Defnyddiodd yr un agwedd benderfynol i ddilyn gyrfa lwyddiannus dros ugain mlynedd gyda chwmni Ecolab, cwmni rhyngwladol sy'n darparu cyfarpar amaethyddol ac hylendid.

Ond yn 2016 tra'n paentio ei hen Landrover yn y lliw gwyrdd gwreiddiol penderfynodd baentio clawr ei goes prosthetig yn yr un lliw. Dangosodd hyn ar y gwefannau cymdeithasol ac yn fuan iawn daeth archeb am un tebyg oddi wrth un o'i ffrindiau. Yn Rhagfyr 2017 tra'n siopa yn Morrisons, Dinbych ac yn gwisgo clawr prosthetig Nadoligaidd gyda goleuadau yn fflachio daeth plentyn ato gan ddatgan pa mor cŵl oedd ei goes. Yn dilyn hyn penderfynodd sefydlu y Cwmni Limb Art ym Mylchau ac sydd erbyn hyn yn cynllunio a gwerthu cloriau prosthetig led-led y byd gyda chwsmeriaid yn Ewrop, UDA ac Awstralia.

Mae wedi ennill llu o wobrau gan gynnwys Gwobr Entrepreneur Stelios (perchennog EasyJet) yn 2018. Wrth gloi dywedodd bod y cloriau yn helpu cwsmeriaid i 'Sefyll Allan a Sefyll yn Falch' ac yn cyflawni pwrpas ymarferol ac hefyd yn hybu hyder sy'n gwella bywyd amputees led-led y byd.

Atebodd Mark nifer fawr o gwestiynau ar ddiwedd y cyflwyniad a diolchwyd iddo gan Graham am sgwrs mor oleuedig. Cafwyd pryd blasus i ddilyn. Noson arbennig i agor y tymor a diolchwyd i Aled am baratoi rhaglen mor ddiddorol gan bod y Gymdeithas yn dathlu ei hanner can mlwyddiant.

# Y Gymdeithas Gymraeg



Arfon Wyn, y canwr a'r cyfansoddwr o Ynys Môn a'n difyrrodd gyda sgwrs a chân ar noson agoriadol ein tymor newydd.
Fe'i magwyd yng Ngwalchmai tan yn 5 oed ac yna yn Nhŷ Capel, Rhos y Gad, Llanfairpwll lle daeth Arfon dan ddylanwad Miss Howells yn yr ysgol wrth iddi ddysgu hwiangerddi a chaneuon gwerin Cymraeg i'r plant – cyfle inni ganu cân werin gydag Arfon ar y gitar: 'Mae nghariad i'n Fenws' a phawb yn ymuno yn y canu yn y festri. Cafodd ei annog hefyd i ysgrifennu barddoniaeth yn 7 oed.
Yn ei arddegau ac yntau yn Ysgol David Hughes, daeth y Beatles a'r Rolling Stones a'r Small Faces yn dduwiau iddo a sêr fel Eric Clapton a Genesis fyddai'n denu ei holl edmygedd cerddorol a chreadigol. Roedd Arfon bellach yn treulio oriau yn chwarae ei gitar Yahama acwstig.
Ond Saesneg oedd iaith y canu pop ac yn Saesneg mwya'r cywilydd, medd Arfon ei hun wrth edrych yn ôl, y byddai ef a'i ffrindiau yn ysgrifennu caneuon.
Newidiodd pethau wrth iddo gystadlu mewn cystadleuaeth roc i grwpiau pop Cymraeg yn y Felinheli a newid enw ei grŵp i'r Atgyfodiad ac ennill!!
Rhoddodd Dafydd Iwan anogaeth i'r grŵp pop a dangosodd y Dr R. Tudur Jones, Prifathro Coleg Diwinyddol Bangor, ddiddordeb yn Arfon a'r grŵp pop a rhoi cefnogaeth iddo. Cafodd Arfon ei ddarbwyllo mai Cymro ydoedd.
Mae Arfon wedi llwyddo i ennill Cân i Gymru bedair gwaith ac fe ganodd 'Cae o Ŷd' inni ac fe gawsom ymuno â fo yn y cytgan.
Er nad Arfon sydd wedi cyfansoddi'r gân fach i blant 'Pwy wnaeth y Sêr Uwchben?' mae hi wedi ei ddilyn yn ddi-ffael ar hyd ei fywyd fel perfformiwr.
Cyd-ganu eto efo Arfon a chael gwneud y symudiadau – y pysgod chwim, y moroedd mawr…….. Hwyl yn wir ac atgofion!
Cafodd Arfon y fraint o ddysgu'r gân reit yn y dechrau i blant arbennig Ysgol Pendalar yng Nghaernarfon ac yn nes ymlaen yn Ysgol Arbennig Hafod Lon, y Ffôr, ble bu'n brifathro.
Fe hoffai Arfon gael ei gofio am ei waith cerddorol gyda phlant gydag anableddau dysgu ac am ei ymdrechion iddynt gael eu derbyn a chael ymdoddi yn hollol naturiol a chydradd yn ein cymdeithas. Dyna'i weledigaeth fawr.
Mae'n dal ati gyda'i gerddoriaeth gyda phobl a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol.
Erbyn hyn mae Arfon yn ehangu'r weledigaeth honno i bobl sy'n byw efo Dementia ac Alzheimers yn dilyn gwahoddiad gan Ganolfan Gerdd William Mathias i weithio ar brosiect drwy'r Gymdeithas Alzheimers.
Yn ôl Arfon y mae canu cân o blentyndod rhywun yn gallu deffro'r man arbennig hwnnw yn y meddwl ac yn aml bydd y rheini sydd bron ag anghofio'n llwyr bob arlliw o'r gorffennol yn medru cofio caneuon ac alawon o'u gorffennol pell.
Rhaid oedd diweddu'r noson drwy ganu 'Yma o Hyd', gydag Arfon y tro hwn a dim Dafydd Iwan! Pawb yn morio canu!
Cyflwynwyd Arfon Wyn gan Huw Vaughan Jones, ein Llywydd ac ef a dalodd y diolchiadau i bawb a fu'n rhan o'r noson gan gynnwys ein gŵr gwadd, Arfon Wyn a Dorothy, Olwen a Berwyn am baratoi lluniaeth.
Noson ddifyr dros ben.
(Cawsom gyfle hefyd i brynu C.D. a llyfr Arfon Wyn,' Cyrraedd yr Harbwr Diogel. Atgofion Drwy Ganeuon.'Diolch am ddefnyddio rhannau o'r llyfr ar gyfer yr erthygl E.W.).

Siop Clwyd
33 STRYD FAWR, DINBYCH LL16 3HY
01745 813431
Llyfrau, Cardiau
Crynoddisgiau a
Chrefftau
siopclwyd@yahoo.co.uk

GWASANAETH HURIO
BEICIAU TRYDAN YN
SIROEDD DINBYCH
A CONWY


(wedi'w leoli yn Henllan)
Cysylltwch hefo DEWI: Ffôn:07788 270138
E-Bost:info@llanebikes.co.uk
Gwefan:llanebikes.co.uk

Snow In Summer
33 Stryd y Dyffryn, Dinbych
LL16 3AH
Siop leol yn gwerthu cardiau,
anrhegion a phethau vintage
DenbighSnowInSummer
@Snowinsummer_shop
@snowinsummer33


# O'r Diwedd! Hwre!

Dwn i ddim a ydach chi'n cofio imi ychydig flynyddoedd yn ôl bellach gyfeirio at y ffaith fy mod i wedi cysylltu â'r Cyngor Sir ynglyn â chyflwr yr arwydd Lôn Y Fedwen Arian a oedd ar bwys y tŷ acw?
Mae'n siwr bod tair neu bedair blynedd wedi mynd heibio ers hynny. Rwy'n siwr y bydd rhywun sydd yn cadw hen rifynnau o'r **Bigwn** yn gallu fy nghywiro.
Ta waeth am hynny, addawodd y ferch ar ben arall y ffôn drosglwyddo'r neges i'r adran berthnasol o'r awdurdod ar ôl imi dd'eud bod yna rywun yn cael hwyl yn codi'r arwydd pydredig bob hyn a hyn a'i symud i fan arall ar y ffordd.
Wel fe aeth amser heibio a dim golwg o neb yn dod i gyflawni'r gwaith. Pydru ymhellach oedd hanes y ddwy styllen a oedd yn cynnal yr arwydd, a oedd bellach yn gwyro'n feddw tua'r dde.
Yna un diwrnod yn ystod rhan olaf mis Medi dyma yna lori wen gyda lifrau'r Cyngor Sir arni yn aros ger ein tŷ ni. Wrth gwrs, yn fusnes i gyd , dyma gamu drwy'r drws i weld beth oedd ar droed.
Ond cyn imi agor fy ngheg, dyma weld yr arwydd glân a chlir ag arno'r geiriau Lôn Y Fedwen Arian – yn cynnwys yr acen grom ar yr ô - yn gorffwys yng nghefn y lori. Yno hefyd roedd tarmac a dwy goes fetal daclus i gynnal yr arwydd.
Wel, roeddwn i wedi cael modd i fyw. Dydwi ddim yn un am gwyno – yn ôl fy ngwraig, beth bynnag – ond o'r diwedd atebwyd fy nghwyn. Haleliwia!
Ond pam y cymerodd hi gymaint o amser i ymateb? A roddwyd y cais o'r neilltu yn rhywle? Oes yna etholiad ar gyfer y Cyngor Sir ar y gorwel?
Ta waeth, mae yna arwydd taclus wedi ymddangos ac i ddathlu'r achlysur cafodd y gwrych tu cefn ac o bobtu iddo'i dorri'n hynod o daclus. A minna' yn berchen dwy law chwith roeddwn i'n hynod o falch o'r ddwy gymwynas hyn.

.....................................................................................

Cyn i'r Cyfarfod Gweddi Diolchgarwch ddechrau yn ffurfiol fe benderfynais bicio i'r ystafell fechan yn y cefn.
O'r fath arswyd! Ar fy ffordd yn ôl doeddwn i ddim yn gallu agor y drws - unrhyw ddrws- i fynd yn ôl i'r festri. Troi'r bwlyn i'r dde ac yna i'r chwith, ond roedd y cyfan yn ofer.
Dyme benderfynu curo ar y drws, ond er fy mod yn gallu clywed lleisiau a sŵn piano doedd neb yn ymateb.
Dyma geisio mynd allan o'r adeilad trwy ddrws arall, ond doedd dim modd agor hwnnw ychwaith.
Beth wnawn ni?
Sôn am banig.
"Dwi'n mynd i fod yn sownd yn y fan yma a does gen i ddim hyd yn oed ffôn symudol i alw am help. Be wna i? Fydda i yma o fore dydd Iau tan y Sul? Fyddan nhw'n gweld fy ngholli i? Callia wnei di. Dos yn ôl at y drws a gweiddi am help."
Dyna oedd y geiriau a'm tawelodd a dyna a wnes i.
Curais yn drwm ar y drws a gweiddi am help yn uwch nag unrhyw Archdderwydd. Fe alwais am help fwy nag unwaith.
Yna fe glywais sŵn rhywun yn troi allwedd yn y clo yr ochr arall i'r drws ac "eureka" roeddwn i allan o'm caethiwed.
Wel am ryddhad! Roedd gen i reswm pur wahanol dros fod yn ddiolchgar y bore hwnnw.
A'r wers a ddysgais? Cyn mynd trwy unrhyw ddrws gwnewch yn siwr eich bod yn gyfarwydd â'i fecanwaith.

**Stan Lyall**

Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru

DBP

DBP Limited / Denbigh Building Plastics Limited
Tŷ DBP, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych, LL16 5TA
Ffôn : 01745 818849

Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.

Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.

Ffenestri UPVC ac Alwminiwm, Ffenestri Sash,
Drysau Alwminiwm Cyfansawdd, Drysau Plygu Dwyffordd Alwminiwm,
Ystafelloedd Gwydr, Toeau Cawell, Portshys, Cynnyrch Roofline,
Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.

# O’r Llyfrgell

Nos Fawrth, Hydref 3ydd ‘roedd yn braf iawn cael croesawu Siân Rees atom i lyfrgell Dinbych. **(llun a’r dudalen 2**)Mae Siân yn adnabyddus i lawer yn y fro gan iddi fyw yn Henllan am rai blynyddoedd a bu’n gweithio fel athrawes Gymraeg yn Ysgol Glan Clwyd am gyfnod ond mae hi bellach wedi ymgartrefu yn sir Conwy. Gan fod aelodau clwb darllen Cymraeg Sgwrs a Sangria, sy’n cyfarfod yn Llyfrgell Dinbych bob yn ail fis, wedi mwynhau nofelau Siân, roeddynt yn awyddus i ni ei chael i’r llyfrgell i sgwrsio am ei llyfrau a sut mae mynd ati i ddechrau ysgrifennu nofel. Mae Siân wedi ysgrifennu tair nofel, ‘Hafan Deg’ sydd wedi ei selio yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, ‘Adar Mud’ sy’n seiliedig ar ddigwyddiadau hanesyddol a ‘Fel Edefyn Gwe’ sy’n sôn am atgofion criw o ffrindiau ysgol nol yn y chwedegau.

Gan fod hon yn noson agored ‘roedd hi’n galonogol gweld cymaint wedi troi allan i wrando ar Siân. Diolch i Angharad Rhys am lywio’r noson yn gelfydd iawn ac i Gwawr Cordiner o Siop Clwyd am ddod a stondin o lyfrau i’w gwerthu ar y noson. ‘Roedd y noson yn rhan o ddigwyddiadau ‘Wythnos Llyfrgelloedd’ Sir Ddinbych.






# Colofn Difyrion Digidol

Deian ap Rhisiart

Ymhlith y cyfoeth celfyddydol a diwylliannol sydd o fewn ein cyrraedd ar blatfform Ambobdim, mae cyfres tu hwnt o ddifyr - Yr Hen Iaith sydd wedi’i darlledu ers rhai misoedd bellach https://amam.cymru/yr-hen-iaith

Mae’r gyfres yn gyflwyniad hwyliog i hanes llenyddiaeth Gymraeg, gyda’r ysgolhaig o Brifysgol Bangor, Jerry Hunter, hogyn o’r Midwest yn America yn dysgu’r Athro Richard Wyn Jones o Brifysgol Caerdydd, hogyn o ganolbarth Sir Fôn, am drysorau’i iaith ei hun.

Mae cyfres o bodlediadau diddorol fel hyn yn ffordd effeithiol o annog pobl i ddefnyddio technoleg gan danio’r dychymyg ac mae cyfres Yr Hen Iaith yn bendant am ddenu pobl o bob oed i wybod mwy am gyfoeth ein llenyddiaeth, gyda’r wybodaeth honno wedi’i chyflwyno trwy drafodaeth ysgafn, doniol, addysgiadol a difyr tu hwnt. Mae’n wych gweld y dechnoleg ddiweddaraf yn cael ei ddefnyddio i ddadansoddi ein llenyddiaeth hynaf.

Y mae’r stori yn dechrau yn y dechreuad gyda’r Gododdin. Yn y bennod gyntaf trafodir gerdd (neu’r casgliad o gerddi cysylltiedig) a briodolir i’r bardd Aneirin, gan archwilio dadleuon sy’n cefnogi – ac sy’n herio – y gred gyffredin mai’r farddoniaeth hon yw’r testun llenyddol Cymraeg cynharach sydd wedi goroesi. Yn yr ail bennod, maent yn trafod y llawysgrif cynharaf yn y Gymraeg – Llyfr Du Caerfyrddin a Llyfr Taliesin.

Mae’r drafodaeth yn symud i chwedlau’r Mabinogi – yn gyntaf, pedair ceinc y Mabinogi, sef Chwedl Branwen, Manawydan Pwyll Pendefig Dyfed, Math fab Mathonwy, pwy ysgrifennodd hwy? ac ym mha gyd-destun y mae’r straeon hyn yn gorwedd yn hanesyddol ac yn gymdeithasol. Ceir cyflwyniad cyflawn gan Jerry Hunter i’r straeon a’u prif gymeiriadau fel y cawr Bendigeidfran. Yn ddiddorol, mae Jerry yn tynnu sylw at bwysigrwydd y môr Celtaidd o fewn y chwedlau hyn fel y canolbwynt i bob dim cyn dyfodiad y Rhufeiniaid a’r Anglo-Sacsoniaid a phan oedd y Celtaidd yn tra-arglwyddiaethu ar Ynys Prydain.

Cwestiwn sydd hefyd yn cael ei ofyn yw ‘Wyt ti’n cofio Macsen?’ ffigwr sydd wedi cael ei anfarwoli yng nghân adnabyddus Dafydd Iwan – Yma o Hyd. Y mae Macsen yn rhan ganolog o stori Breuddwyd Macsen sydd wedi’i seilio yn ‘hanesyddol’ ar Ymerawdwr Rhufeinig, Magnus Maximus, neu dad y Genedl Gymreig, yn ôl Gwynfor Evans, sy’n cael ei ddenu i Gaernarfon gan dywysoges brydferth o’r new Helen neu Elen. Wedyn mewn penodau eraill ant ymlaen i drafod Beirdd y Tywysogion, ac yn yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, y bardd mwyaf adnabyddus – Dafydd ap Gwilym. Mae yna dros 24 o benodau hyd yma, digon i’ch cadw i fynd am ddyddiau! Mae flogiau a podlediadau fel hyn yn bwysig tu hwnt i’n difyru a’n haddysgu ac yn hybu iechyd a llesiant ac mae llawer mwy ar YPod (https://ypod.cymru/) trwy’r Gymraeg, ac fe fyddwn yn trafod rhai o’r rhain y tro nesaf.

Os hoffech wybod rhagor am unrhyw agwedd o’r byd digidol, neu’n chwilio am hyfforddiant neu gymorth ar ddatrys problem ddigidol, cysylltwch gyda mi deian.apRhisiart@cwmpas.coop

# Cyngerdd Côr Llansilin

Cafodd cynulleidfa niferus wir ddifyrrwch wrth wrando ar Gôr Llansilin yn canu dan arweiniad Iona Jones yng Nghapel Unedig y Fron a'r Brwcws yn ddiweddar.
Er bod côr meibion yn arfer bod yn Llansilin, mae gwreiddiau'r côr cymysg presennol wedi deillio o hen Aelwyd yr Urdd, Llansilin gyda Iona yn arwain y côr y pryd hynny yn y 70au ac mae'n dal i arwain heddiw!!
Cawsom ein hatgoffa o gôr yr Aelwyd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanelli yn 1975 gyda John Geraint a'r Parch Graham Floyd yn aelodau o'r côr – daethant yn ail!! Mae Aelwyd newydd wedi ei sefydlu yn Llansilin bellach dan yr enw 'Aelwyd Sycharth.'
Mae tua deugain yn y côr presennol a'r aelodau'n dod o ardaloedd Rhiwlas, Moelfre, Llanarmon Dyffryn Ceiriog, Llanrhaeadr ym Mochnant, Pen-y-bont-fawr, Llanfyllin, Llansantffraid, Llanymynech, Croesoswallt ac wrth gwrs, Llansilin ei hun. Dim ond llond llaw o'r aelodau fu'n canu yn y côr gwreiddiol.
Merch Iona sef Nia Turner oedd arweinydd y cyngerdd a chawsom sawl stori ddigri ganddi a sawl unawd cofiadwy yn ogystal – dipyn o waith ond graen ar bopeth!!
Unawdydd arall oedd Geraint Jones efo'i gitar.
Cawsom ein difyrru gan wahanol 'genre' o ganu gan y côr yn cynnwys caneuon o sioeau cerdd, emynau, caneuon poblogaidd a chanu yn arddull y canu plygain.
Cyfeilyddes y côr oedd Delyth Jones.
Cafwyd sawl cyfraniad gan Bedwarawd Meibion Llansilin sef Maldwyn Jones, Trefor Jones, Henry Evans (brawd Eiri) a Meirion Jones ac er eu bod yn gyn-aelodau Aelwyd yr Urdd yn Llansilin, fuon nhw erioed yn cael eu hadnabod fel 'Pedwarawd yr Aelwyd.'Maent yn canu efo'i gilydd ers tua 45 mlynedd.



Pedwarawd y Côr



Eiri a John Geraint a brawd Eiri Henry sydd yn aelod or Côr

Mae'r côr yn cyfarfod i ymarfer yn Neuadd Goffa Llansilin a dyma un o'r ychydig sefydliadau yn y pentref sydd yn defnyddio'r iaith Gymraeg fel y brif iaith.
Croesawyd y côr a'r gynulleidfa gan Carolyn ac fe dalwyd y diolchiadau ganddi
i'r côr ac i John Geraint am y gwaith trefnu ac i'r rhai hynny fu'n cynorthwyo ar y noson. Diolchwyd hefyd i Eiri a'i thîm am baratoi lluniaeth i'r côr.
Noson gartrefol, gofiadwy.
(Diolch i John Geraint ac i Eiri am roi gymaint o help imi wrth imi baratoi'r erthygl – E.W.)

J&G Jones & Graham
CYFRIFWYR | ACCOUNTANTS

Gyda dros 40 mlynedd o brofiad mewn darparu gwasanaeth cyfrifeg ariannol ledled Gogledd Cymru. Mae ein holl wasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynnwys y canlynol:

- Dechrau busnes
- Cwmniau Cyfyngedig
- Cyflogau
- Cyngor treth
- Hunan asesiad
- Cadw llyfrau
- Cynllunio treth
- TAW

CYFARFOD CYNTAF YN RHAD AC AM DDIM

45 Stryd y Dyffryn, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3AH
01745 816321
office@jonesandgraham.co.uk
www.jonesandgraham.co.uk
ACCA
Cymraeg

Cyngor Sir Ddinbych
Cynghorydd
**Mark John Young**



Dinbych Isaf - Annibynnol
Symudol: 07825 912554
www.sirddinbych.gov.uk
E:mark.young@sirddinbych.gov.uk

# Pwysigrwydd Awyr Dywyll!!




Yng nghyfarfod mis Hydref o Glwb Probus Dinbych a'r Cylch, croesawyd Gwenno Jones, Swyddog Tirweddau Dynodedig Awyr Dywyll sydd yn gweithio mewn prosiect cydweithredol gydag wyth ardal ddynodedig trwy Gymru. Prif bwrpas y prosiect yw gweithio gyda chymunedau a busnesau i leihau llygredd goleuadau er mwyn gwella bioamrywiaeth ac iechyd dynol.

Eglurodd Gwenno fod llygredd goleuadau wedi cynyddu 400% yn y 25 mlynedd diwethaf. Mae hyn wedi cael effaith enfawr gan fod dros 60% o'n bioamrywiaeth yn dibynnu ar Awyr Dywyll. Mae goleuadau amhriodol a goleuadau wedi'u camgyfeirio, yn wastraff (sydd yn costio biliynau o bunnoedd).

Mae goleuadau artiffisial yn drysu anifeiliaid ac amrywiaeth o rywogaethau e.e.. mae effaith hyn wedi achosi gostyngiad anferth ym mhoblogaeth gwyfynod. Mae hefyd yn tarfu ar wenyn gan fod aflonyddwch goleuo yn achosi llai o orffwys iddynt ac felly mae llai o fêl yn cael ei gynhyrchu. Mae 150 o bryfaid yn cael eu lladd gan olau stryd sengl ac mae adar yn cael eu harallgyfeirio a'u lladd ar ôl hedfan i mewn i adeiladau.

Dim ond 2% o boblogaeth y DU sydd yn gallu gweld 12 seren yn yr awyr heb lygredd golau. Mae gormod o olau, yn enwedig golau glas oddiar sgriniau, cyn neu yn ystod cwsg, yn medru achosi meigryn ac ymyrryd â phatrymau cwsg.

Roedd yn bleser clywed fod 92% o ardal Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn bodloni safonau'r Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol a pharhau bydd y gwaith. Ar hyn o bryd mae 4 safle Awyr Dywyll yn ardal Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy – Maes Parcio Llangwyfan, Maes Parcio Moel Arthur, Maes Parcio Bwlch Pen Baras Moel Famau a Rhaeadr y Bedol, Llangollen.

Mae swyddogion y Prosiect yn gweithio gydag ysgolion i godi ymwybyddiaeth cenedlaethau'r dyfodol am y gwaith pwysig yma. Yn ogystal mae wythnos Awyr Dywyll Cymru yn cael ei gynnal pob blwyddyn ym mis Chwefror gyda llawer o weithgareddau rhyngweithiol ar gael.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud i wella'r math o oleuadau a chyfeiriad a gwarchod gosodiadau a ffitiadau goleuo.

Mae tymheredd lliw goleuadau hefyd yn allweddol gan fod golau gwyn yn niweidiol i anifeiliaid a phryfid ac mae golau melyn yn fwy dymunol. Mae bwlb 2700-3000(K) gwyn cynnes yn fwy ffafriol er mwyn cwtogi llygredd golau.

Yn y cyfnod cwestiynau ac atebion bu trafodaeth am lawer o faterion yn ymwneud â chael Awyr Dywyll.

*Mae Clwb Probus Dinbych a'r Cylch yn croesawu aelodau newydd i ymuno yn ei Ginio Misol yng Ngwesty'r Oriel, Llanelwy,*
*Am fwy o fanylion cysylltwch â'r Swyddog Aelodaeth: Gareth Williams 07881 783735 neu ar <julmwilliams1974@gmail.com>*
*Y cyfarfod nesaf ym mis Tachwedd fydd y Cyfarfod Bynyddol*
*Yna, ar Ddydd Llun, Rhagfyr 4, Gareth Foulkes o Landyrnog fydd yn siarad ar y testun **Ffermio Hen Ffasiwn Modern**..*






# Lansio HWB DECHRAU GORAU ar wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Annwyl Bartneriaid,
Bob blwyddyn, mae oddeutu 6,300 o unigolion o bob rhan o Ogledd Cymru, yn ymweld â thudalennau gwe Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, i chwilio am wybodaeth a chyngor i gael mynediad at wasanaethau penodol cyn, yn ystod a rhwng beichiogrwydd.
Mae tîm Dechrau Gorau wedi ymgysylltu â thros 50 o arbenigwyr o bob rhan o BIPBC i ddatblygu dros 70 o adrannau newydd i Hwb Dechrau Gorau ar wefan BIPBC.
Prif nod y tudalennau gwe wedi'u hailstrwythuro yw symleiddio'r broses i unigolion, cyplau, a theuluoedd i gyrchu a darganfod gwybodaeth berthnasol i iechyd a lles wedi'i deilwra i gyfnodau gwahanol o'u bywydau.
Mae'r tudalennau ar eu newydd wedd hefyd yn adnodd gwerthfawr i'n rhanddeiliaid, gan gynnig cyfoeth o wybodaeth ar ystod eang o bynciau er mwyn hwyluso rhyngweithiadau ystyrlon ymysg defnyddwyr gwasanaeth.
Caiff Hwb Dechrau Gorau ei lansio'n swyddogol **ddydd Llun Hydref 16eg 2023,** i gydfynd gydag Wythnos Genedlaethol Rhiantu. Fel rhan o'r lansiad, byddai tîm Dechrau Gorau yn croesawu eich cyfraniad wrth rannu Hwb Dechrau Gorau ymhlith eich staff a defnyddwyr gwasanaeth.
Mae adnoddau hyrwyddo wedi cael eu datblygu er mwyn caniatáu i holl gydweithwyr gymryd rhan wrth hyrwyddo Hwb Dechrau Gorau. Mae'r rhain ar gael i'w cyrchu'n gyfleus trwy Badlet Hwb Dechrau Gorau.
Gellir lawrlwytho'r adnoddau hyn yn hawdd i'ch cyfrifiadur personol. Gan ei gwneud yn hawdd i bawb eu cyrchu, eu cadw, argraffu a'u rhannu pan fo'r angen ar draws eich sefydliad, ymysg eich partneriaid ac yn bwysicaf oll, ymysg eich defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd.
Byddem yn ddiolchgar iawn o gael eich barn gychwynnol o'r adran newydd Hwb Dechrau Gorau, trwy gymryd rhan yn arolwg byr Hwb Dechrau Gorau, a wnaiff helpu'r tîm i werthuso'r prosiect.
Felly, paratowch i ymuno â'r dathliadau wrth i ni lansio Hwb Dechrau Gorau **ddydd Llun, 16eg o Hydref**. Gyda'n gilydd, gadewch i ni sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i deuluoedd Gogledd Cymru.
Yn gywir,
Tîm Dechrau Gorau





Annwyl ddarllenwyr *Y Bigwn*

# ARHOLIADAU GORSEDD CYMRU

Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn dod i ardal Wrecsam yn 2025, beth am fynd ati dros fisoedd y gaeaf i baratoi ar gyfer sefyll arholiadau'r Orsedd, a thrwy hynny ddod yn aelod o'r Orsedd a chymryd rhan yn ei seremonïau a'i gorymdeithiau lliwgar?
Cynhelir yr arholiadau ysgrifenedig ym mis Ebrill a gallwch ddewis o blith nifer o feysydd cyfoes i arbenigo ynddynt: Barddoniaeth, Cerddoriaeth, Cerdd Dant, Iaith, Rhyddiaith, ynghyd ag arholiad arbennig i Delynorion. Mae rhai agweddau ar yr arholiadau Cerddoriaeth a Cherdd Dant yn rhai ymarferol y gellir eu cwblhau ar fideo a/neu yn electronig.
Os hoffech fwy o fanylion am yr arholiadau a'r gwahanol feysydd astudio, cysylltwch â mi cyn gynted â phosib yn: Llys Cerdd, 80 Cae Gwyn, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1LL (***e-bost:*** wgwyn.lewis@btinternet.com), ac fe anfonaf gopi o lyfryn y ***Maes Astudiaeth*** ar gyfer 2023-24-25 atoch.
Beth am roi cynnig arni, felly, er mwyn i chi gael bod yn rhan o seremonïau Gorsedd Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol pan ddaw i Wrecsam yn 2025?

Yr eiddoch yn gywir
Dr W Gwyn Lewis (Gwyn o Arfon)
Trefnydd Arholiadau Gorsedd Cymru



# Ysgol Twm o'r Nant

Rydym wedi bod yn brysur yn dathlu tymor diolchgarwch yn yr ysgol a phob uned wedi bod yn dysgu caneuon ar gyfer eu gwasanaethau diolchgarwch. Rydym yn diolch i Gapel y Fron am gael cynnal ein gwasanaethau yno unwaith eto eleni.

Rydym wedi ffarwelio gyda Mrs Llinos Williams am y tro gan ei bod yn haeddu rhoi ei thraed i fyny cyn iddi groesawu aelod newydd i'r teulu. Mwynhewch eich cyfnod mamolaeth, rydan ni i gyd yn edrych ymlaen at gael clywed eich newyddion da pan y daw.

Llongyfarchiadau mawr i Miss Catrin Davies ar enedigaeth merch fach. Cafodd Hali ei geni yn gynt nag yr oedd Mam wedi disgwyl ac felly wedi gorfod gadael am ei chyfnod mamolaeth yn sydyn! Mae Hali yn ddigon o sioe, ac edrychwn ymlaen i'w chroesawu i'n plith i deulu Twm.

Rydym erbyn hyn yn ysgol makaton gyfeillgar, gyda amryw o'r staff wedi cael hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio. Bydd yr hyfforddiant yma yn cael ei ledaenu i'r plant a bydd gennym arwydd newydd i'w ddysgu pob wythnos.



## Uned dan 5

Rydym wedi cael hanner tymor prysur yn dysgu am 'Fi fy hun'

Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar yr Hydref a'i holl harddwch.

Mae'r plant meithrin wedi bod yn datblygu ei sgiliau mân wrth geisio taro'r pegiau golf i mewn i'r bwmpen gyda mwrthwl pren.

Aethom am dro i Aldi i brynu ffrwythau iach er mwyn dysgu am fwyta'n iach. Yna cawsom gyfle i greu cebab ffrwythau blasus.













Mae'r dosbarth Meithrin wedi bod yn brysur yn dysgu am siapiau 2D.





Rydym yn edrych ymlaen at berfformio 'Pwy Wnaeth y Sêr uwchben' a 'Diolch, Diolch Iesu' yng nghapel y Fron ar ddiwedd y tymor.


HUW VAUGHAN JONES
Arlunydd, Cartwnydd

Dewis da o luniau du a gwyn a lliw ar gael am bris rhesymol. Adeiladau, anifeiliaid, tractorau, ceir, blodau, coed a.y.b. Neu beth am lun arbennig o'ch dewis chi ar gyfer achlysur arbennig. Lluniau o bob maint

Cysylltwch â Huw ar
01745 812184








## Uned dan 7

Fel rhan o'n gwaith thema 'Dathliadau', bu'r plant ar daith ddifyr i ffatri Becws Henllan i weld sut mae nhw'n gwneud cacennau yno. Roedd pawb wrth eu bodd yn cael gweld y ffatri ar waith ac yn cael blasu'r danteithion. Cawsom fore bendigedig yno.





Ar Ddiwrnod Iechyd Meddwl Y Byd, cawsom stori, sgwrs a siocled poeth yn yr ardd hefyd.

Uned dan 9

Mae'r plant wrth eu boddau yn dysgu am y corff yn ein thema Dyma fi-y peiriant gorau un! Creuwyd sawl sgerbwd maint plentyn ym mhob dosbarth gan ddysgu enwau y gwahanol esgyrn. Hoff wers i nifer o'r plant oedd dysgu am y system dreulio. Cawsant wylio a darllen llyfr ar lein fel ysbrydoliaeth cyn mynd ati i greu pw eu hunain! Roedd eu gwynebau'n werth eu gweld wrth arbrofi, a phob un yn llawer iawn mwy ymwybodol nawr o sut mae bwyd yn mynd i fewn i'r geg yn gorfod dod allan pen arall erth fynd i'r toiled.







Dysgodd y plant sut cafodd Ysgol Twm o'r Nant ei henw gan ddylanwad dyn arbennig yn y dref sef Thomas Edwards neu Twm o'r Nant fel ei lys enw. Dysgwyd am ei hanes a chafodd y plant ymweld a'r goeden ysgawen yng ngwaelod y cae cyn mynd ati i ysgrifennu gyda pluen ac inc ysgawen yn y dosbarth, yn union fel yr oedd Twm o'r Nant yn ysgrifennu ei anturliwtiau.


## Cynghorwyr Sir Ddinbych
## Eich Cynghorwyr Plaid Cymru



Rhys Thomas - Dinbych Isaf
Delyth Jones - Dinbych Caledfryn a Henllan
Elfed Williams - Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch

Mae ein manylion cyswllt i gyd ar safle wê y Cyngor Sir

## Uned dan 11

Rydym wedi cyrraedd diwedd ein hanner tymor cyntaf yn yr uned ac mae'r disgyblion wedi bod yn hynod o brysur yn dysgu am yr efaciwîs yn Ninbych, ac am y rhai a gollodd eu bywydau yn ystod yr Ail Ryfel byd. Aethom am dro i lle oedd yr hen orsaf drên gan gerdded i fyny at yr hen ysgol, fel wnaethon nhw flynyddoedd yn ôl. Pan gyrhaeddon ni'r sgwâr, cawsom amser i feddwl a dangos parch wrth y gofgolofn

Yn ogystal a hyn, mae'r disgyblion wedi bod yn hynod o brysur gyda chwaraeon, gan gael gemau cyfeillgar gyda Ysgol Frongoch gyda'r tîm merched. Mae'r holl waith rhedeg ac ymarfer mae'r disgyblion yn ei wneud yn talu'n y diwedd, gan i dim cymysg yr ysgol ddod yn fuddugol yn nghystadleuaeth yr Urdd, a byddem yn mynd ymlaen i Aberystwyth. Rydym yn dymuno yn dda i'r tîm merched fydd wrthi wythnos nesaf hefyd. Hoffwn longyfarch y disgyblion hefyd ar eu llwyddiant gyda'r tîm traws gwlad wrth i'r tîm merched a bechgyn ddod yn fuddugol trwy'r sir. Llongyfarchiadau mawr iddynt, a phob hwyl yn Aberystwyth!



Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu yn cystadlu yng nghystadleuaeth trawsgwlad ardal Dinbych. Daeth yr ysgol yn lwyddiannus iawn ac fel uned cafodd tim yr hogie y safle cyntaf a tim y genod y drydydd safle. Llongyfarchiadau arbennig i Eben ar ddod yn drydydd yn ei ras unigol. Bydd y 10 cyflymaf ym mhob grwp yn cynrychioli'r ysgol ac yn mynd ymlaen nawr i'r rownd nesaf i gystadlu.




Rydym wedi dysgu caneuon y cynhaeaf ac yn edrych ymlaen i'w perfformio yn y capel yn ein gwasanaeth diolchgarwch. Thema ei gwasanaeth ni yw 'Diolch am ein bwyd.'






**Garej Ffowndri**

Am wasanaeth cyflawn i'ch modur



01745 812482

CATalyst Systems - 01745 816611

enquiries@catsystems.co.uk

Cymraeg

Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)
Sganwyr llaw - Systemau CCTV
Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G
Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk
Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA

# Ysgol Glan Clwyd



**Dathlu Ieithoedd Ewrop**
Roedd golygfa werth ei gweld ac arddangosfa hynod liwgar i'w gweld yn y dosbarth Ieithoedd Tramor wrth i'n disgyblion arddangos y cacennau roedden nhw wedi'u creu gartref er mwyn cymryd rhan yn y 'Bakeoff'. Gwych

**Codi arian**
Llongyfarchiadau i Gwion Williams bl13, a phrif ddisgybl yr ysgol, ar ei gamp yn cwblhau hanner marathon Caerdydd mewn amser arbennig o dda. Casglodd Gwion swm teilwng iawn at St.John Ambiwlans Cymru.

**Gwobr Dug Caeredin**
Bu nifer o'n disgyblion bl11 a 13 ar alldeithiau gan wersylla dros nos i brofi eu sgiliau hunan gynhaliol fel rhan o'r wobr Dug Caeredin. Yn sicr, bu iddynt ddangos gwydnwch a dyfalbarhad er gwaethaf tywydd gwlyb a gafwyd ar adegau. Go dda chi.

**Taith i Haworth**
Bu disgyblion Chweched yr adran Saesneg ar ymweliad ag ardal enwog Bronte a mwynhau ail-fyw profiad yr awdures.



**Cyngor Ysgol**
Mae'r cylch cyntaf o gyfarfodydd y Cyngor Ysgol bellach wedi'u cynnal a dros bedwar ugain o'n disgyblion yn cael cyfle i ddatblygu sgiliau arweinyddol wrth fod yn gynrychiolwyr dosbarth ac yn rhan o'r cyngor. Er mwyn sefydlu dealltwriaeth o'r rôl, hyfryd oedd cael croesawu Llyr Gruffydd AS i annerch y cyngor llawn ac i rannu'r math o drafodaethau sy'n codi yn y Senedd ynghyd â chynnal pleidlais yn null llywydd y Senedd ar ôl y drafodaeth.

**Prif ddisgybl yn codi arian**
Llongyfarchiadau i Gwion Williams bl13 ar ei gamp dros y penwythnos yn cwblhau marathon Caerdydd mewn amser arbennig o dda. Mae Gwion yn casglu at St.JohnAmbilwans Cymru ac wedi llwyddo i godi dros £400

**Gweithdy gyda Prifardd**
Mae grwp o ddisgyblion wedi bod yn cydweithio efo'r prifardd Rhys Iorwerth er mwyn cyfansoddi barddoniaeth ar gyfer ymryson Talwrn y Beirdd. Mae hwn yn un o blith nifer o ddigwyddiadau i ddathlu Gwyl Gerallt yng Nghaerwys sy nodi penblwydd yr Eisteddfod hynafol honno ac yn sicr yn fraint i'n disgyblion gael gymryd rhan. Bydd y Talwrn yn cael ei recordio gan y BBC.

**Arwrgân o gefnogaeth i Gymru**
Daeth dros 500 o ddisgyblion at ei gilydd yn yr Hafan ddiwedd y dydd Gwener cyn y gêm rygbi y chwarteri i lafarganu arwrgân er mwyn dangos ein cefnogaeth i'n tîm cenedlaethol. Gyda'r lle yn fôr o goch a'r ysbryd cefnogol yn amlwg, cofiadwy oedd y profiad hwn wrth ddathlu ein Cymreictod.



**Campau Chwaraeon**
Llongyfarchiadau i ferched blwyddyn 10 ar guro Ysgol Dinas Brân o 4-2 ac i'r bechgyn ar eu sgôr arbennig wrth ennill 9-2 yn erbyn Ysgol Morgan Llwyd. Amdani!

# GYRRU

Fel Golygydd mis Hydref, teimladau cymysg sydd gen i am y cyfyngiadau diweddar i gadw at 20 milltir yr awr mewn rhai mannau yng Nghymru. Ond ar y cyfan, rwyf o blaid ac wedi sylwi fod trigolion Dinbych, ar y cyfan, yn gyrru'n fwy pwyllog, gyda'r mwyafrif yn gwneud eu gorau i gadw at 20 milltir yr awr yn y mannau priodol – hyd yn hyn o leiaf. Rwy'n prysuro i ddweud nad oes gen i unrhyw dystiolaeth "gwyddonol" am hyn, dim ond beth wyf wedi sylwi arno yn y mis diwethaf.

Ac rwy'n cytuno gant y cant gyda'i sylw fod "agenda ehangach" gan nifer o'r rhai sy'n gwrthwynebu. Daeth cefnogaeth i'r farn yma mewn llythyr mewn cylchgrawn Saesneg a gyhoeddwyd bron yr un diwrnod â rhifyn Hydref o'r Bigwn. Llythyr oedd hwn gan rywun o Portsmouth mewn ymateb i sylw Penny Mordaunt, Arweinydd y Tŷ Cyffredin, ac Aelod Seneddol dros Gogledd Portsmouth, a ddywedodd fod rheol 20 milltir yr awr yng Nghymru yn "*absolutelyinsane*". Ond yn ôl y llythyrwr, mae cyfyngiadau o 20 milltir yr awr ar y rhan fwyaf o ffyrdd mewn ardaloedd preswyl wedi bodoli yn Portsmouth am nifer o flynyddoedd, gydag ychydig iawn o wrthwynebiad gan Dorïaid lleol na neb arall!



Llun diddorol ar stondin Clwb Rygbi Dinbych yng Ngŵyl Eirin Dinbych
Pwy ydi'r ddau yma dybed??

# PARCIO

Efallai i chi gofio adroddiad yn rhifyn Gorffennaf am Elysteg Llwyd Thomas, gyda chymorth ei thad, Eifion Lloyd Jones, yn llwyddo i wyrdroi dirwy o £100 yn bennaf am fod y cwmni sy'n rheoli'r maes parcio yn Lligwy, Ynys Môn, ddim yn darparu arwyddion na gohebiaeth dwyieithog.


Bu achos tebyg iawn ym mis Awst eleni, pan ymddangosodd ToniSchiavone, o Saron ger Llandysul, ond gyda chysylltiadau lleol hefyd, yn y llys am y trydydd tro i apelio yn erbyn dirwy o £70 ar ôl parcio yn Llangrannog ym mis Medi 2020. Yn union fel Elysteg, llwyddodd Mr Schiavone gyda'i apêl gan i'r cwmni "*OneParkingSolution*" wrthod gyrru rhybudd cosb a gohebiaeth yn Gymraeg iddo fo.

Ynsgîl achosion fel hyn, mae galw gan rai i bobl beidio talu ffioedd parcio mewn mannau sydd ddim yn arddangos arwyddion dwyieithog. Mae arwyddion uniaith Saesneg i'w gweld yn Ninbych – dwi'n ymwybodol o tua hanner dwsin ohonyn nhw ar un stryd wedi eu gosod gan "*Flash Park*", cwmni o Lundain. Os wyddoch chi am rai eraill, beth am adael i'r Bigwn gael gwybod?

*John Davies*




: RHYBUDD PARCIO UNIAITH SAESNEG YN NINBYCH



# TEYRNGED
# Evan Morris, 66 Erw Salusbury, Dinbych

Ganwyd Evan yng Nglan Gors Bylchau ar y 19fed o Chwefror 1932 yn unig blentyn i John a Hannah Morris, ei fam yn ferch Hafod Llan, Pentrellyncymer a'i dad, John yn fab Beidiog Llansannan ac yn ddiweddarach Ty Mawr, Groes.

Cafodd ei addysg gynnar yn ysgol Tan y Fron, Bylchau cyn symud i Rhewl Valley, Prion pan oedd yn 6 oed a mynychu Ysgol Prion ac yna chydig flynyddoedd yn Ysgol Caledfryn Dinbych.

Ychydig o addysg gafodd gan fod yn rhaid iddo weithio adre ar y fferm gan nad oedd iechyd ei dad yn dda. Clwyfwyd ei dad yn y Rhyfel Byd Cyntaf ac mi wnaeth hynny effiethio arno am weddill ei oes a hynny wrth gwrs yn golygu mai Evan oedd hefo baich rhedeg y fferm ers yn ifanc iawn. Roedd yn weithiwr cydwybodol ac mi weithiodd yn galed iawn drwy gydol ei oes a dim ond yn ymddeol pan oedd yn 73 oed.

Mi briododd ag Eluned yn 1954 ac fe anwyd pedwar o blant iddynt, Mair, Emyr, Gwyn a Nerys.

Amaethu a contractio oedd gwaith cynnar dad ac yn mynd o fferm i fferm i gombeinio a balio ynghyd a ffermio Rhewl Valley. Roedd y cynhaeaf gwair ac ÿd yn amser prysur dros ben ac roedd yn gweithio oriau hir i gefnogi ei deulu. Roedd hefyd yn agor ffosydd a draenio tir ar hyd a lled yr ardal.

Yn ddiweddarach mi gychwynnodd fusnes trafnidiaeth gyda lori. Cofiwn y Dodge hefo injan Perkins swnllyd ac mi roedden yn ei glywed yn dod am adre o Ffordd Ystrad am Brion. Mi roedd yn cario pob math o bethau ar y lori, a cofio yn dda iddo ddod adre hefo llwyth o falau ar y trelar dros nos ac aroglau falau dros bob man. Mi brynodd lori newydd sbon - sef y Volvo F86 i'w alluogi i fynd dros y dwr i Holland bob mis yn delivro Formaldehyde o Synthite yn Yr Wyddgrug i Weert yn Ne Holland. Doedd byth yn brin o passengers, roedd wastad rhesiaid o fobl yn barod i fynd am dro hefo fo i gael gweld Holland a chael y profiad o fynd ar ferry a dreifio yr ochor anghywir ir ffordd! Mynd ar Ferry o Felixtowe i Hook of Holland fyddai, a codi llwyth yn ol adre oedd y patrwm. Mi roedd yn adnabod ffyrdd yr Isel-diroedd cystal ag oedd yn adnabod ffyrdd ym Mhrydain ac yr adeg hynny yn yr hwyr 60au, a dechrau 70au, map papur oedd hi ac nid sat-Nav, a pur anamal oedd o yn colli ei ffordd.

Mi aeth amryw am dro yn y lori Volvo, ac mae ne ambell stori dddigri ac mi roedd wrth ei fodd yn ail adrodd dan chwerthin. Un ohonynt oedd ei ewythr Ted, Bronant, Groes, yn mynd hefo fo i Holland. Roedd ne rhyw garnifal yn nhre Weert ac roedd yr hogiau lleol wedi dechrau prynu diod feddwol i'r ddau. Erbyn diwedd y noson doedd dim siap rhy dda ar Uncle Ted ac roedd rhaid codi yn gynnar bore wedyn i fynd i ogledd Holland i nol llwyth cyn mynd adre. Yn ol y son cafodd dad tipyn o waith cael Uncle Ted i wisgo ac i lawr grisiau i'r lori. Roedd effaith y noson gynt yn dal arno ac ni allai ffeindio ei fresys i ddal ei drowsus. Son am helynt, ond mi roedd y bresys yn sownd tu ol i'w drowsys yr holl amser!

Yn ddiweddarach Treuliodd dad flynyddoedd yn gweithio i Jones Bros yn Rhuthun fel dreifar low-loader iddynt ac mae mwy or hanes yn yr ail deyrnged

Roedd yn arddwr da ac roedd ei ardd fawr yn llawn o lysiau, ffrwythau a rhosod. Yn amal iawn roeddem yn rhedeg allan o le yn ein freezers hefo cymaint o gynnyrch o ardd dad. Roedd wrth ei fodd i ni wneud crymbyl Rhiwbob iddo yn defnyddio ei gynnyrch a jam cyrens duon. Mi roedd ei ardd yn werth ei gweld ac mi roedd wrth ei fodd yn rhannu y cynnyrch.

Mi ofalodd am ei fam, Hannah hyd ei diwedd a phleser mawr oedd i ninnau edrych ar ei ol a gofalu amdano yntau yn ei henoed. Roedd yn ymddiddori yn ei deulu ac yn licio siarad hefo ni bob dydd - o leia unwaith i gael updates ar be oedd pawb yn ei wneud a be oedd yn digwydd.

Roedd yn barod iawn ei gymwynas i'w deulu, ffrindiau a chymdogion. Nid yn unig roedd o wrth ei fodd hefo ni ei deulu ond roedd ein ffrindiau ni yn ffrindiau iddo hefyd ac roedd yn cymeryd diddordeb ynddynt i gyd a hwythau yntau.

Hoffai fynd ar benwythnosau mewn bythynnod yng ngogledd Cymru ac mi fwynhaodd lawer gwyliau ym Mhortiwgal ac wrth ei fodd pan aeth ei ddwy ferch a fo yno mis Chwefror diwethaf yma. Cafwyd dipyn o job ei berswadio i fynd i gadair olwyn yn airport Lerpwl gan nad oedd eisiau ei weld yn defnyddio ffashiwn beth! Mi nath fwynhau teithioi i Seland Newydd a Singapore pan yn 83 oed

Mynd i Morrisons i gyfarfod a'i ffrindiau oedd highight y dydd, ac mi fuodd adeg Covid yn anodd iawn iddo a'i ffrindiau, ond mi ddaru nhw oresgyn y rheolau covid drwy gyfarfod yn car park Morrisons, parcio ochor wrth ochor, agor ffenestri eu ceir ar hyd y linell, a cael paned o fflasgiau roeddynt wedi dod hefo nhw a chael sgwrs.

Siomedig iawn oedd o pan oedden wedi bwcio i fynd ir Iseldiroedd ddechrau mis Awst dwytha ma, a mynd yn ol i weld yr hen lefydd oedd o yn gyfarwydd a nhw a hefyd i ymweld ar teulu Van Hoof, y teulu roedd o wedi gwneud ffrindiau hefo nhw ymhell dros hanner can mlynedd yn ol. Nid oedd ei feddyg yn hapus iddo fynd ar y trip oherwydd fod profion yn dangos nad oedd ei iechyd yn ddigon da iddo deithio.

Cafodd ei gymeryd i Ysbyty Glan Clwyd ar y 15fed o Awst a trosglwyddwyd ef i Ysbyty Aintree am ragor o driniaeth ac rydym yn ddiolchgar iawn am y gofal arbennig gafodd yno. Trist iawn oedd dallt nad oedd gwellhad i fod ond roedd dad yn dal yn obeithiol hyd y diwedd.

Bu farw yn dawel yn Ysbyty Aintree fore Fedi 13 gyda ni ei deulu o'i amgylch.

Rydym yn ddiolchgar iawn o dad, am ei garedigrwydd, ein ffrind, ei ddoethineb, ei gymorth parod i ni ei deulu ac am ei wên a'i hiwmor. Roedd ganddo gôf da hyd y diwedd ac yn cofio ac ail adrodd pethau o flynyddoedd maith yn ol, mi allai ddweud yn union pwy oedd yn perthyn i ni a sut. Cafodd iechyd ffantastig ac mae ganddom llawer i ddiolch amdano.

Bydd yr hiraeth yn un lem iawn

Diolch dad, cysgwch yn dawel.

Dymuna y teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeinlad, y cardiau galwadau, negeseuon ar cyfraniad hael o £756 tuag at Hospis Sant Cyndeyrn.

Diolch i'r Parchedig Andras Iago am ei wasanaeth ac i brodyr Dowells am eu trefniadau trylwyr.


## Atebion HYDREF 2023

**Ar Draws :**
8. Perimedr
9. Ymlaen
10. Acen
11. Natur
12. Nain
13. Gorllewin
16. Dicter
18. Taid
20. Argae
21. Maip
22. Gorwyr
23. Statudol
26. Mynd
28. Delta
30. Dwyn
31. Chwilio
32. Newyddion

**I Lawr :**
1. Beicio
2. Sian
3. Cernyw
4. Brat
5. Hyfrydle
6. Gan
7. Beri-beri
14. Llydaw
15. Neges
17. Cymru
19. Adolygwr
20. Afradlon
24. Abacws
25. Olynol
27. Delw
29. Lens
30. Deddf

**Cofiwch** bod y llythrennau **ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh** a **th** yn mynd i un blwch

## CROESAIR TACHWEDD 2023



**Ar Draws :**
1. Tegwch
6. Brodor o Gaernarfon
10. Darn araf ac urddasol o gerddoriaeth
11. Mae'n llifo i'r môr yn Y Rhyl (4,5)
12. Pentref ar Ynys Môn
13. Ffurf barddonol
14. Dere
15. Amhosib ei gredu
19. Disgrifiad o bentagon
21. Offeryn chwyth pres
23. Carpiog
26. Oherwydd
27. Gorau chwarae ........ (3-6)
28. Ymddangosiad
29. Offer chwarae plant mewn parc (2-2)
30. Eisteddfod lle perfformwyd 4 i lawr gyntaf yn 1974

**I Lawr :**
1. Mîl metr
2. Esgyrn y cefn
3. Anochel
4. Sioe gerdd (3,3,3)
5. Llythyr electronig
7. Culhwch ac .....
8. Lliw glas tywyll
9. Astudiaeth o organebau byw â'u hamgylchedd
16. Offeryn i fesur lleithder yr awyr
17. Cyflwr o fod yn adnabyddus iawn
18. Siaced wedi ei gweu
20. Cloc ar eich garddwrn
21. Dyledus
22. Ffrâm gyfri
24. Mynyddoedd le bu Bandit yn byw
25. ..... chwist – noson o chwarae cardiau



TE YN Y GRUG

Tŷ Te a Delicatessen
Coronation Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
01745 816576

CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES

29 FFORDD RHUTHUN,
DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

# Côr Meibion Dinbych yn Dathlu 35 mlynedd



Cadeirydd y Côr—Paul Harrison yn talu'r diolchiadau

Hyfryd oedd cael mynychu cyngerdd dathlu Côr Meibion Dinbych yn 35 oed yn neuadd y dref ar nos Sadwrn, Hydref 14eg. Chwalwyd yr ofnau na fyddai cynulleidfa sylweddol yn y neuadd oherwydd bod gem rygbi bwysig y Crysau Duon yn erbyn Iwerddon ymlaen y noson honno hefyd. Er i mi gyrraedd mewn da o bryd rhaid oedd mynd i eistedd yn yr oriel gan fod y llawr isaf eisoes yn orlawn. Roedd awyrgylch arbennig yno gydag ewyllus da pawb yn y gynulleidfa'n hollol amlwg.

Cafodd y côr ei sefydlu yn 1988 gyda Mrs PhyllisDryhurst-Dodd yn gyfarwyddwr cerdd.Cynhaliwyd yr ymarferion cynnar yn y Capel Mawr gyda chriw o 17 aelod amrywiol yn aelodau. Ers hynny cafwyd gwasanaeth teilwng gan sawl cyfarwyddwr arall sef Arwyn Roberts,Nia Wyn Jones, a'r cyfarwyddwr cerdd presennol R.Sam Pritchard. Mae pob un wedi gosod ei stamp personol ar weithgareddau'r côr. Cafwyd gwasanaeth ardderchog gan nifer o gyfeilyddion dros y cyfnod megis JulieHowatson,DorothyKirk , Joyce Daviesa Nia Mary Jones. Ar hyn o bryd mae Sam Pritchard yn gwneud y gwaith anhygoel o gyfuno bod yn gyfarwyddwr cerdd a chyfeilydd i'r côr.Mae'r côr wedi bod yn amlwg ym mywyd Dinbych yn ystod y 35 mlynedd diwethaf ac wedi sicrhau bod miloedd o bunnau wedi'i gyfrannu at achosion lleol.

Gwahoddwyd Seindorf Arian y Royal Oakley, dan arweiniad Paul Wilson, i rannu'r noson gyda'r côr. Anodd yw credu bod y seindorf yn bodoli ym Mlaenau Ffestiniog ers 1864 ! Y seindorf yw pencampwyr Cymru yn eu hadran ar hyn o bryd.

Arweinydd y noson oedd un o aelodau'r côr, ac yn wir un o'r aelodau gwreiddiol,sef Clwyd Wynne. Llwyddodd i greu naws arbennig gan ddefnyddio ei ddull hamddenol o gyflwyno'r eitemau.Roedd y rhyngweithio rhyngddo gyda Sam,a gweddill y côr, yn ddoniol iawn. Rhoddwyd yr argraff fod y côr yn gymdeithas sy'n mwynhau canu a chymdeithasu – ffactorau a fu'n absennol yn ystod cyfnod y covid. Da yw clywed bod niferoedd y côr wedi cynyddu'n ddiweddar wrth i bobl weld gwerth mewn canu a chymdeithasu.





Dechreuwyd y noson gyda'r côr yn yn canu Rachie (Caradog Roberts), Seal Lullaby(Eric Whitacre), Autumn Leaves (Joseph Kosma) ac O Gymru (Rhys Jones). Wedi hynny cyflwynodd Paul Wilson y gynulleidfa i'r Seindorf a chafwyd perfformiad disgybledig o sawl clasur fel Gwyr Harlech, Gorymdaith Radetsky, ac El Mismo Sol. Roedd graen amlwg ar y perfformiad ac aeth y seindorf yn ei blaen i gynnig ei fersiwn o alawon adnabyddus fel Dafydd y Garreg Wen,Sosban Fach, Rocky, a Final Countdown.

Yn yr ail hanner aeth y côr ymlaen i gyflwyno ffefrynnau fel y gan gospel Amen, Bendigedig (Robert Arwyn),American Trilogy (Alwyn Humphreys), a Gwinllan a roddwyd (Caradog Williams/ Saunders Lewis). Daeth y noson i ddiwedd cofiadwy gyda côr a'r Seindorf yn cyfuno i berfformio Gwahoddiad (John Tudor Davies).

Diolchwyd i bawb oedd yn cymryd rhan, ac yn bresennol ar y noson, gan Paul Harrison, cadeirydd y côr. Rhoddwyd diolch i'r busnesau lleol wnaeth gefnogi'r noson gan hefyd nodi ei bod yn bwysig ein bod ni rŵan yn eu cefnogi hwy.

Wel am noson ardderchog gyda neuadd y dref dan ei sang !

Braf yw gweld bod y côr yn dal ati ar ôl y cyfnod o govid ac yn cynnig cyfle gwych i ddynion fwynhau profiadau cerddorol, yn ogystal a chwmnïaeth gwerthfawr. Mae croeso i unrhyw berson ymuno a'r côr – mae gwahoddiad i ddod i wrando arnynt yn ymarfer yn Eirianfa ar 7.30 pob nos Fawrth.



# Modfeddi Meddygol

Dwi'n siwr fod nifer ohonoch chi'n darllen papurau bro heblaw'r Bigwn. Yn ogystal a hanesion lleol maent yn cynnig trysorau sy'n addas i'w darllen gan gynulleidfa ehangach. Diolch i Berwyn am dynnu fy sylw at golofn Modfeddi Meddygol sy'n ymddangos yn 'Llanw Llŷn'. Yr awdur yw Emyr Wynne Evans sy'n fferyllydd lleol. Hoffwn ddiolch iddo am adael i ni rannu'i waith gyda chi.

Cwyr y glust

Does na neb yn y tŷ ma'n gwrando ar ddim dw i'n i ddeud. Mae'r wraig, y genod, a hyd yn oed y cwn yn fy anwybyddu'n ddyddiol. Ond os ydw i hyd yn oed sibrwd 'Sach chi'n hoffi mynd i Whitehall (lle bwyta ym Mhwllheli) am ginio Sul ?', yn rhyfedd iawn maen nhw'n rhedeg i fyny'r grisiau i newid y munud hwnnw ! Mae hyn yn profi nad oes ddim byd yn bod efo'u clustiau nhw , a nad ydw i'n ddim mwy mwy na darn o ddodrefn yn y lle yma !

Er obsesiwn llawer mam gyda chadw clustiau eu plant yn lân, a'u llnau yn drwyadl gyda ffyn gwlân cotwm, wyddoch chi na na ddylech chi wthio dim byd llai o faint na'ch penelin i mewn i'ch clust? A taswn i'n cael punt gan bob un ohonoch chi sy'n trio gwneud hynny'n union rŵan, mi fyswn i'n gallu prynu tocyn wythnos i'r Steddfod Genedlaethol yn braf ! Mae'r cwyr sydd yn y glust yn gwneud gwaith pwysig iawn i'w hamddiffyn rhag niwed drwy ddal a rhwystro llwch, bacteria ac unrhyw beth arall rhag dod i gysylltiad â chroen bregus tiwb y glust. Gan amlaf, mae'r cwyr yn dod allan ar ben ei hun, ond weithiau mae'n caledu ac ynn blocio'r glust gan achosi byddarwch, poen, sŵn di-baid yn y glust (tinnitus) neu deimlad chwil a chyfoglyd. Bryd hynny mae'n angen i chi geisio gwella'r broblem cyn iddi droi'n haint, ond cofiwch fy nghyngor i uchod am beidio â defnyddio eich byses na ffyn gwlân i dynnu'r cwyr – dim on ei wthio'n ddyfnach i fewn i'r glust wnewch chi.

Yn hytrach, gan orwedd gyda'ch pen ar un ochr, defnyddiwch ddiferydd i roi dau neu dri diferyn o olew olewydd o safon feddygol yn eich clust. Pan mae'r wraig yn gwneud hyn, dwi'n mynnu ei bod yn rhoi tywel o dan y glust arall rhag ofn i'r olew ddod yn syth drwodd ! Gwnewch hyn unwaith y dydd am bedwar neu bum diwrnod i feddalu'r cwyr. Dros gyfnod o tua pythefnos, mi fydd lympiau o gwyr yn disgyn allan o'r glust, yn enwedig yn y nos pan fyddwch chi'n gorwedd.

Ddylech chi ddim gwneud hyn os ydi unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol i chi. :

- rydych wedi cael twll neu rwyg yn nhympan y glust (ear-drum) o'r blaen;
- rydych wedi colli'ch clyw yn sydyn; mae gennych boen neu redlif sylweddol yn dod o'ch clustiau;
- rydych wedi cael haint yn eich clust yn ystod y chwe mis diwethaf;
- rydych wedi cael taflod hollt neu lawdriniaeth ar clust yn y gorffennol;
- rydych wedi cael eich cynghori gan weithiwr iechyd proffesiynol i osgoi cael dŵr yn eich clustiau.

Os na fydd y driniaeth olew yn cael gwared â'r cwyr, mae'n bosib mynd at arbenigwr all ddefnyddio dŵr cynnes dan bwysau i geisio ei ryddhau. Dw i'n cofio sawl dioddefwr dros y blynyddoedd yn brolio Doctor Caradog am ei dechneg yn defnyddio chwistrell i wneud hyn. Roedd o bob amser yn llwyddo ar y cynnig cyntaf ! Ond erbyn heddiw, gyda datblygiadau o ran rheoli llif y dŵr cynnes drwy ddefnyddio offer pwrpasol, ystyrir bod chwistrellu'n gallu gwneud mwy o ddrwg na da.

Yn anffodus, dydi'r awdurdod iechyd ddim yn cynnig gwasanaeth cael gared a chwyr clustiau bellach ond mae sawl fferyllfa leol yn cynnig cymorth drwy ddull meicrosugno yn hytrach na chwistrellu. Yn anffodus mae'n rhaid talu am y gwasanaeth yma.

# Bwrdd Crwn (Roundtable) Dinbych a'r Cyffiniau
# Gwyl Gwrw Dinbych 2023

Ar yr 16eg o Fedi 2023 cynhaliwyd 18fed Gŵyl Gwrw Dinbych yn Neuadd y Dre. Wedi ei drefnu'n flynyddol (ac eithrio am ddwy flynedd oherwydd Covid-19) gan Fwrdd Crwn Dinbych a'r Cyffiniau mae'r digwyddiad hwn wedi dod yn ddigwyddiad allweddol ar galendr y dre gyda channoedd o bobl yn dod i fwynhau'r ŵyl.

Cafwyd noson lwyddiannus iawn gyda dros 500 o bobl yn heidio i Neuadd y Dre yn ystod y dydd a gyda'r nos i fwynhau amrywiaeth o gwrw gan nifer ystod o fragdai cwrw a seidr o Gymru a thu hwnt yn ogystal â Prosecco. Cefnogwyd y noson gydag adloniant gwych gan y canwr a'r bandiau poblogaidd lleol Osian Gierke, Keenan-Jones ac Ether.

Dymuna'r Bwrdd Crwn ddiolch yn fawr iawn i fusnesau a sefydliadau lleol am noddi'r digwyddiad hwn ac i wirfoddolwyr eraill am eich holl gymorth gyda threfnu a chynnal y digwyddiad. Llwyddwyd i godi dros £7,000 at achosion da lleol yn sgil haelioni trigolion a busnesau'r dre.

Am ragor o wybodaeth am Fwrdd Crwn Dinbych a'r Cyffiniau neu os ydych yn awyddus i wneud cais am arian mae croeso i chi gysylltu â mi ar sionwynne@hotmail.com neu 07810524898. Cewch hefyd hyd i ni ar ein tudalen Facebook drwy chwilio am Bwrdd Crwn Dinbych a'r Cyffiniau.

Diolch!



# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar

https://cwmulus.org/

## Darlith


Alison

Alison Bromley o Ddinbych oedd ein darlithydd ar **Hel Achau yn y Dull Modern** yn ddiweddar. Dyma'r tro cyntaf i ni gynnal darlith yn yr Amgueddfa ers y cyfnod clo ond roedd 'na gynulleidfa yn gwylio trwy gyfrwng Zoom hefyd.
Mae Alison wedi bod yn ymchwilio i hanes ei theulu ers ymddeol ac erbyn hyn mae ganddi 32 o ffolderi o ddogfennau ar ei silffoedd!
Rhoddodd fraslun i ni o'r ffyrdd gorau i ymroi i'r gwaith gan ddechrau trwy holi perthnasau a llunio coeden deuluol syml. Cyfeiriodd at wefannau *Ancestry, Genes Reunited* a *Find My Past*. Mae cyfrifiadau 1841-1921 a thystysgrifau geni, priodas a marwolaeth ar gael ar-lein ac mae'n bosib archebu copi o dystysgrifau o'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol. Mae'n bosib ymchwilio i gofnodion milwrol, yn arbennig am wasanaeth rhyfel yn ystod y 19eg a'r 20fed ganrif, cofnodion galwedigaethol, fel yr heddlu, gweithwyr rheilffordd, nyrsys, prentisiaid ac ati, gwefan yr Archif Genedlaethol a chofnodion Plwyf o'r 17eg ganrif neu yng nghynt. Mae darganfod ymchwil pobl eraill i'r un teuluoedd yn werthfawr iawn, ac mae gan *Ancestry* restr o'r rhain, ac mae gan *Genes Reunited* drefniant ebost er mwyn i ymchwilwyr gysylltu â'i gilydd.
Y problemau mwyaf cyffredin wrth ymchwilio i hanes teulu yw'r camgymeriadau a wnaethpwyd gan y cyfrifwyr a fyddai'n cwblhau'r ffurflenni dros bawb cyn 1911, yn arbennig oedrannau. Gall dwy "chwaer" â phymtheg mlynedd neu fwy rhyngddynt fod yn fam a merch. Doedd cyfrifiad 1841 ddim yn nodi perthynas pobl â'i gilydd. Mae cofnodion cyn yr 17eg ganrif yn brin.
Y peth pwysicaf i'w wneud wrth ymchwilio i hanes teulu yw cadw cofnod o'r holl wybodaeth, ar gyfrifiadur ac ar bapur. Mae *Legacy* yn cynnig rhaglen hanes teulu am ddim. Rhaid llunio system ffeilio dda ar y cyfrifiadur a gwneud copi wrth gefn. Rhaid argraffu a ffeilio pob dogfen. Gellir creu a chynhyrchu'r goeden deuluol trwy fynd i'r 'dewisiadau' ar raglen hanes teulu. Mae 'na wefannau hefyd fel *My-history.co.uk* wnaiff argraffu ffeil pdf.
Diolch i Alison am ei harweiniad a'i brwdfrydedd. Gorffennodd gyda rhybudd – unwaith i chi gychwyn ar ymchwilio i hanes eich teulu, mae'n anodd ymatal! Mae'n gaethiwus!

## Ymweld â'r Amgueddfa

Bydd yr Amgueddfa ar gau yn ystod y gaeaf, ond mae'n dal yn bosib i ymweld â'r arddangosfa ar unrhyw adeg trwy gysylltu â **gwybod@gwefrhebwifrau.cymru** i drefnu apwyntiad.
Croeso cynnes i bawb.
Yn y cyfamser byddwn yn glanhau ac yn tacluso'r arddangosion ac yn mwynhau sgwrs a phaned gyda'n gwirfoddolwyr.

## Bore Coffi



Diolch i bawb a'n cefnogodd yn y Bore Coffi diweddar. Codwyd tua £200 i goffrau'r Amgueddfa.
Edrychwn ymlaen at ein Bore Coffi nesaf ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 16eg, pan fyddwn yn dathlu'r Nadolig.



## O'r casgliad




Dyma radio 'Hacker Mayflower 2', rhodd ddiweddar i'r Amgueddfa gan bobl o Fanceinion, a oedd yn eiddo i'r BBC am gyfnod pan oedden nhw'n ei ddefnyddio fel prop ar raglenni teledu.
Cynhyrchwyd y radio 8 falf yma o gwmpas 1962 a gwerthwyd am £36. Roedd wedi ei ddylunio i dderbyn darllediadau ar FM yn unig oherwydd bod rhan fwyaf o'r DU erbyn hynny yn medru derbyn darllediadau newydd, safon uchel y BBC oedd yn welliant mawr ar y darllediadau cynt ar donfeddau canol a hir. Roedd ganddo sensitifrwydd da i signalau gwan ac ansawdd sain ac felly roedd yn apelio at y rhai oedd â diddordeb arbennig mewn hi-fi. Roedd y mwyhadur sain yn cynhyrchu tua 7 wat o bŵer ac mae'r seinydd yn 10 x 6 modfedd. Mae ganddo 'Reolaeth Amlder Awtomatig' oedd yn anghyffredin ar y pryd a dangosydd tiwnio 'Llygad Hud' oedd yn ei wneud yn hawdd i'w diwnio. Radio o'r ansawdd uchaf yn wir!

## Gwledd Eirin Dinbych

Roeddem yn falch iawn i gefnogi Gwledd Eirin Dinbych ar ddechrau mis Hydref.

# Holi a Stilio



Erfyl Williams sy'n ateb y cwestiynau y mis yma. Mae'n briod â Carys ac yn byw ym Mharc Myddleton. Mae Erfyl yn weithgar iawn mewn sawl cymdeithas yn y dref a gellir dibynnu arno i drefnu gweithgareddau'n drwyadl. Go brin y byddai'r Bigwn yn bodoli heb unigolion fel Erfyl.

**Beth ydi dy atgof cyntaf?**
Mam yn mynd â mrawd bach, Aled, am dro yn y pram a minnau, tua thair oed, yn cerdded gyda mam i fyny'r stryd ym mhentref Efailnewydd ger Pwllheli. Diddorol oedd ymweld â'r pentref yn ystod Eisteddfod Boduan eleni a gweld y tŷ, fy nghartref cyntaf, Tegfan.
**Pa dri lle sydd bwysicaf i chdi?**
**Llanllyfni** yng Ngwynedd ble bûm yn byw yn ystod fy nghyfnod yn yr ysgol gynradd (5-12 oed). Mae'n llawn o atgofion a chaf fy nenu'n ôl yno. 'Paid â byw yn y gorffennol,' meddai rhywun ond mae'n anodd peidio dychwelyd o dro i dro.
**Groes** ger Dinbych. Treulio fy arddegau yno – pentref bychan tawel a'r ardal yn un amaethyddol. Bwrlwm yn y capel o ran Yr Ysgol Sul a Gŵyl Yr Ysgol Sul a digon o blant a phobl ifanc ac Aelwyd brysur yng ngofal Mr John Hughes, prifathro Ysgol Rhydgaled. Cofio cicio pêl efo James Owen a'i frawd o flaen y 'shelter' yn y pentref – neb yn poeni am ddiogelwch a'r traffig a Dewi Hughes yn ein cyflwyno i bêl rygbi am y tro cyntaf.
Anaml y byddwn yn ymweld â Dinbych heblaw am fynd yno i'r ysgol ar y bws o Clwt bob bore ond cofio mynd i'r Graig yn y gwyliau i gicio pêl efo ffrindiau o'r dref gan gynnwys Gwyn Evans. Rwy'n dal i weld Gwyn acw yn Ninbych.
Treuliais haf 1966 yn gweithio yng ngarej Mr John Edwards, y dyn mwya' ffeind ac amyneddgar erioed. Braint hefyd oedd dod i nabod Peter Jones a welais yn ddiweddar.
Roedd fy myd yn fychan rywsut yn Groes ond roedd yn gyfnod hapus.
**Dinbych**. Symud i fyw yma yn 1987 a magu teulu. Atgofion melys o Gapel y Fron – ydach chi'n cofio Eisteddfod y Tai? Atgofion o'n plant ni'n mynd i Gylch Meithrin Bodawen ac yn ddisgyblion yn Ysgol Twm o'r Nant a'r holl gyfleoedd yn y dre gan gynnwys y Ganolfan Hamdden a Mini Ffwtball yng ngofal Stan Roberts.
Cyfle'n bersonol i ymuno â gwahanol Gymdeithasau a chefnogi digwyddiadau yn enwedig ar ôl ymddeol a chyfarfod gymaint o bobl yn y dref ar hyd y blynyddoedd a gwneud cyfeillion. Ble aeth y blynyddoedd?
Yn yr ail ddosbarth o lefydd pwysig mae Patagonia, White Hart Lane, Cwm Silyn a Gwyliau yn Ffrainc pan oedd y plant yn iau a gwyliau yn yr Eidal yn ddiweddarach.
**I ble fyddi di'n mynd ar dy wyliau?**
I'r garafan yn Chwilog - cyfle i gerdded ar hyd y Lôn Goed a cherdded ar hyd llwybr yr arfordir. Mwynhau traethau Pen-Llŷn. Rydym yn agos at y môr a'r mynydd yn Chwilog.
**Be sy'n gwneud i chdi chwerthin?**
Hwyl yng nghwmni Ifan, yr ŵyr, sydd bron yn ddeg oed bellach a chyfle i ddeud hen jôcs: Be dach chi'n galw dyn tân o Rwsia? Ifan Watsialosgi.
Ia, chwerthin ar hen jôcs!! Cnoc, cnoc …… Na, well imi beidio rhag ofn ichi ochneidio!!
**Pryd oedd y tro diwethaf i chdi grio?**
Colli Cadi'r ci yn bymtheg oed yn ddiweddar. Mae gen i ofn dangos fy nheimladau yn ormodol yn gyhoeddus mewn angladd ac mewn achlysuron trist.
**Pa fath o gerddoriaeth wyt ti'n ei hoffi ac wyt ti'n berson cerddorol dy hun?**
Bryn Fôn, Dafydd Iwan, Bwncath a Meinir Gwilym. Caneuon fel 'Strydoedd Aberstalwm' a 'Fel Hyn 'da ni Fod'. Cerdd dant ac ambell i ddarn clasurol. Mwynhau mynd i ambell Gymanfa Ganu er nad wyf yn gallu darllen cerddoriaeth yn ddigon da - sol-ffa na hen nodiant. Dwi'n dal i ganu'r alaw – mi fuasai Trystan Lewis am fy nghroen i!!
Er imi gael gwersi piano a chwarae'r organ fach yn y capel yn Groes am sbel, ni chyrhaeddais unrhyw safon a daeth y cwbl i stop yn fy arddegau! Sori Mr Krueger ac Eirlys Dwyryd, fy athrawon amyneddgar!!
Trio'r iwcalili yn ystod y cyfnod clo a mwynhau ond daeth popeth i stop eto!
Rhaid ail gydio!!
**Oes yna rywbeth sy'n codi arswyd arnat?**
Cyflwr ein planed i'r cenedlaethau a ddaw ar ein holau.
Cyflwr yr iaith Gymraeg i blant y dyfodol.
Rhyfeloedd ar draws y byd a'r diniwed yn dioddef.
**Oes gen ti uchelgais neu oes yna rywbeth y buaset yn hoffi ei wneud yn y deng mlynedd nesaf?**
Meistroli'r iwcalili. Olrhain fy achau. Dysgu Gwyddeleg, Treulio mwy o amser yn y garafan. Defnyddio mwy ar y beic. Gwyliau tramor hefyd??


Trefnwyr Angladdau Annibynnol
R.W.Roberts a'i Fab
Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos
Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele
Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E: rwroberts.gorffwysfa@gmail.com
Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com
www.rwrobertsandson.co.uk
Golden Charter Funeral Plans
National SAIF Independent Funeral Directors

MALDWYN WILLIAMS
Ffordd y Rhyl, Dinbych
Ffôn:01745 812542
GORSAF MOT yn UNIG


**Beth sydd wedi achosi'r embaras mwyaf i chdi?**
Er mwyn llenwi albwm efo cardiau o luniau o fyd natur a ddeuai mewn pacedi te Brooke Bond yn y 60au a ninnau'n byw mewn siop yn Llanllyfni, dyma agor dau neu dri phaced yn slei bach er mwyn cael gweld y cardiau y tu mewn i'r pacedi te pan oedd na neb adra. Be wedyn? Wel, cuddio'r te rhydd yn yr ardd – cuddio'r dystiolaeth ond fel dau dditectif, daeth mam a dad o hyd i'r te yn y pridd yn yr ardd ac fe deimlais embaras bob tro y rhannodd fy rhieni'r stori efo ymwelwyr, ffrindiau a pherthnasau. Roedd hyn yn waeth na chosb!!!

**Pa un yw dy hoff raglen deledu?**
Sgorio. Match of the Day. Gwesty Aduniad. Rownd a Rownd.
Question Time. Newsnight. Would I Lie To You? The Lone Ranger yn yr hen ddyddiau.

**Sut fyddi di'n treulio dy oriau hamdden?**
Cerdded efo Cymdeithas Edward Llwyd.
Chwarae bowls. Nap ar ôl cinio!!
Darllen ond dwi ddim yn darllen digon a'r pentwr llyfrau wrth y gwely bron yn fynydd!
Sgwennu rhyw ychydig i'r Bigwn. Beicio.

**Mae Llywodraeth Cymru angen help i redeg y wlad. Pa gyngor fuaset yn ei roi i Mark Drakeford?**
Mynnu mwy o bwerau a chyllid er mwyn inni reoli'n gwlad ein hunain yn well.

**Beth sy'n dân ar eich croen?**
Does dim rhaid i bobl sy'n cyflwyno/cadeirio mewn cynherddau, cyfarfodydd a digwyddiadau o flaen cynulleidfa o Gymry Cymraeg a di-Gymraeg, gyfieithu **bob** gair – rydym yn tanseilio gallu ieithyddol y di-Gymraeg ac mae'n anniddorol i'r Cymry Cymraeg.
O dro i dro, mewn sefyllfa debyg, cawn groeso byr yn Gymraeg a gweddill y cyflwyniad yn Saesneg. Rydym yn haeddu gwell!
Dwi'n un sâl am gychwyn pob sgwrs yn Gymraeg ac mae Carys yn deud y drefn!! Colli cyfle!

**Beth fyddai dy swydd ddelfrydol?**
Gofalu am yr henoed er mod i'n un ohonyn nhw bellach a minnau wedi cyrraedd oed yr addewid hefyd!

**Wyt ti'n siopa ar y we ac os wyt ti, pa fath o bethau fyddet ti'n eu prynu ar y we?**
Dwi ddim – mae'n dangos fy oed o bosib!

**Wyt ti wedi rhoi lliw yn dy wallt erioed?**
Naddo ond angen gneud gan fy mod i wedi gwynnu! Pa liw ydach chi'n awgrymu?

**Oes genti datŵ neu fyddi di'n cael un? Os felly, tatŵ o beth?**
Dim ar hyn o bryd ond pwy a ŵyr! C.O.Y.S. (Come On You Spurs) efallai ond ar ba ran o'r corff?

**Pwy ydi'r person mwyaf diddorol wyt ti'n/wedi ei adnabod?**
Dod i fyw i Ddinbych yn 1987 a chanfod, ar ôl cyrraedd, ein bod yn byw drws nesa i John Glyn a Helen a'r teulu. Ruth Menter Iaith am ei gwaith di-flino.

**Beth ydi'r peth gorau sydd wedi digwydd i chdi erioed?**
Cyfarfod Carys, priodi, cael plant a mwynhau iechyd. Byw yn hapus ein byd yma yn Ninbych. Magwraeth ar yr aelwyd erstalwm. Teimlo'n ddiolchgar ac yn freintiedig.


MEIRION DAVIES A'I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Teganau plant - a llawer rhagor
CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones



Emyr Evans a'i Gwmni Cyf
Uned 9, Stad ddiwydiannol Colomendy,
Dinbych 01745 812333

Stad Ddiwydiannol
Gaerwen
01248 421900

Darnau ar gael ar gyfer pob math o beiriannau fferm, Pibellau Hydrolic, Olew a Gwrthrew
e-bost:info@emyrevans.co.uk



CYFREITHWYR
SwayneJohnson
SOLICITORS

**Gwasanaethau i Chi**
- Trawsgludo – Symud Tŷ a Materion Eiddo Preswyl
- Landlord a Thenant
- Cyfraith Teulu
- Ewyllysiau, Ymddiriedolaethau ac Ystadau
- Llys Gwarchod a Phwerau Atwrnai
- Cynllunio Ffioedd Cartrefi Gofal
- Cynllunio Treth
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Cyfreitha Sifil, Anghydfodau ac Hawliadau
- Cyfraith Cyflogaeth

**Gwasanaethau ar gyfer eich Busnes**
- Cyfraith Amaethyddol
- Ffurfiant Busnes a Chwmnïau a Corffori
- Strwythurau Busnes a Phartneriaethau
- Eiddo Masnachol – prynu a gwerthu
- Cyfraith Cyflogaeth
- Eiddo Deallusol
- Cartrefi Gofal
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Diwydiant Hamdden – Parciau Gwyliau a Carafanau, Gwestai a Cyfraith Trwyddedau

2 Sgwâr y Neuadd, Dinbych, LL16 3PA
01745 812835
www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com
Y Cyfreithwyr Arbenigol yng Nghalon eich Cymuned
Hefyd yn Rhuthun, Llanelwy, Llandudno, Bangor a Tattenhall

Ar fore braf ar Gae'r Ddôl, cartref Clwb Rygbi Rhuthun, fe wnaeth carfan dan 13 Clwb Rygbi Dinbych gyrraedd gyda 16 chwaraewr i chwarae yn erbyn y Gleision. Yn dilyn ambell gêm gyda niferoedd llai roedd hi'n wych gallu cael carfan 15 dyn a chael eilydd yn barod i ddod ymlaen.
Dan arweiniad y capten Jamie Williams, daeth Dinbych allan o'r blociau yn gryf yn y chwarter cyntaf, gan roi'r tim cartref dan bwysau sylweddol. Ymatebodd Rhuthun yn dda i'r pwysau gan ddod yn ôl a sgorio dau gais. Sicrhaodd Dinbych y rhan fwyaf o diriogaeth er na throdd hynny'n bwyntiau er i'r prop Ryan Walker serennu yn y chwarae rhydd.
Dechreuodd Rhuthun yr ail hanner yn gryf gan rwygo trwy amddiffyn Dinbych oherwydd taclo gwan. Rhoddwyd y tim ar ben ffordd gan ychydig eiriau o ddoethineb gan yr hyfforddwyr Osian Hedd Williams, Aron Evans a Charlie Williams, ac fel canlyniad daeth y chwaraewyr yn ôl ar y trywydd iawn o ran eu techneg taclo. Roedd Dinbych wedi adennill eu momentwm a rhoddwyd Rhuthun dan bwysau unwaith eto. Cafwyd rhediadau cryf gan Jamie Williams, Harri Winning a Ryan Walker a ddaeth a Dinbych yn ôl i fyny i linell gais Rhuthun lle gorffenwyd y symudiad gan Alfie Green gyda chais ardderchog.
Mae'r tim dan 13 oed yn ymarfer ar nos Fercher, 5.45pm - 7.15pm yng Nghlwb Rygbi Dinbych. Mae croeso cynnes i unrhyw chwaraewyr newydd.

**Llun ar dudalen gefn**

/gwasg.com PRINT

ARGRAFFU
DYLUNIO GRAFFEG
PAPUR PENNAWD › CARDIAU BUSNES
LLYFRYNNAU › POSTERI
TAFLENNI › PAMFFLEDI
BANERI › BANERI RHÔL › FFLAGIAU
ARGRAFFU O FFEIL › SCANIO I FFEIL
ARGRAFFU FFORMAT BRAS
ARGRAFFU CYNLLUNIAU
LAMINEIDDIO › RHWYMO

Cefn 24 Stryd Elwy, Y Rhyl LL18 1BP
01745 331411 · info@gwasg.com | www.gwasg.com
GwasgPrint

Cafodd Dreigiau Dinbych amser llwyddiannus iawn yng Nghyfarfod Nofio Conwy dros benwythnos y 23ain a 24ain Medi, a gynhaliwyd yn Llandudno. Cymerodd 10 nofiwr ran gyda 2 yn eu gala gystadleuol 1af erioed – Aydin (11 oed) a Leila (10 oed). Gweddill y tîm oedd Eva, Sioned, Seren, Margaret, Mared, Elenid, Olivia & Kate.

Enillwyd 11 fedal –
Elenid, 10 oed, 1 Aur (100M Dull Rhydd), 3 Arian (200M Dull Rhydd, 200M Medli Unigol, 100M Pili Pala) a 2 Efydd (50M Dull Rhydd, 100M Dull Cefn)
Olivia, 14 oed, 2 Arian (100M Dull Rhydd, 200M Medli Unigol) ac 1 Efydd (50M Dull Rhydd)
Seren, 15 oed, 1 Arian (100M Broga)
Eva, 16 oed, 1 Efydd (50M Dull Rhydd)

Sicrhawyd un ar bymtheg lleoliad arall yn y 10 uchaf gan weddill y tîm. Llwyddodd y nofwyr i wella eu hamserau personol gorau – o 32 ras roedd gwelliant amser mewn 19, hynny yn amrywio o ganfed eiliad i fyny i hyd at 67 eiliad.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â Dreigiau Dinbych, cysylltwch â nhw naill ai ar denbighdragons@hotmail.com neu drwy eu gwefan www.denbighdragons.com sydd gyda gwybodaeth bellach. Mae'r Dreigiau hefyd yn chwilio am fusnesau lleol i helpu gyda rhedeg y clwb ac yn cynnig amrywiol o opsiynau partner/noddi. Cysylltwch â nhw ar y manylion uchod os oes diddordeb.

Diolch yn fawr,
Gwenann Parry
Cadeirydd Dreigiau Dinbych
**Llun ar dudalen gefn**



PyBj
GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf
*Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau*
Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion
Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332
e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk

Mae CPD yn falch ac yn awyddus i fedru cyhoeddi y bydd Central Park yn estyn croeso i ddwy gem ryngwladol ar gyfer y 'Victoria Shield'.

Bydd dwy o dair gêm Cymru yn digwydd yn nhref Dinbych, gyda Chymru yn wynebu Gweriniaeth Iwerddon a Gogledd Iwerddon yn y gystadleuaeth hanesyddol hon. Bydd y gemau hyn yn digwydd ar Dachwedd y 6ed a'r 8fed, gyda Chymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon yn wynebu ei gilydd mewn cystadleuaeth a fu'n boblogaidd ers 1925.

Mi fydd Central Park yn ymuno â Parc Collier (Wrecsam),Stadiwm Glannau Dyfrdwy, a Ffordd Llanelian (Bae Colwyn) i fod yn leoliadau am eleni. Mae'r holl gemau i oedran dan 16 – gyda Gweriniaeth Iwerddon yn bencampwyr ar dir ei hunan yn 2022.

Dywedodd Shon Powell, y cadeirydd, fod y clwb wrth ei fodd yn cael croesawu mwy o bêl droed rhyngwladol i Central Park. Mae'r clwb eisoes wedi ei ddewis fel canolfan ar gyfer Pencampwriaeth Dan 19 Ewrop yn 2026 ac fe fydd hyn yn cynnig cyfle ychwanegol i baratoi tuag at hynny. Mae'n bur debyg mai carfan Dan 16 eleni fydd sylfaen carfan Dan 19 yn 2026. Mae'r clwb yn edrych ymlaen at groesawu cymaint o bobl ag sy'n bosib i Ddinbych, ac yn falch o gael chwifio ein baner wrth groesawu gemau rhyngwladol.

Tristwch mawr i bawb yn y clwb oedd clywed am farwolaeth Karen Coates ar ddechrau mis Hydref. Karen oedd sylfaenydd Tîm Merched Dinbych yn 2008 ac roedd hi'n ffigwr amlwg yn y clwb fel datblygodd gêm y merched. Parhaodd yn ffigwr poblogaidd ar, ac oddi ar y cae, dros y blynyddoedd. Fel canlyniad i'w gwaith diflino daeth llwyddiannau amlwg i'r clwb. Cafwyd munud o ddistawrydd cyn gemau'r Tîm Cyntaf a Thîm y Merched er cof am Karen. Mawr fydd y golled ar ei hôl o fewn y clwb ac yn y dref.



Karen Coates, cyn aelod o Dîm y Merched, a fu farw yn ystod y mis.

Mi fu'r Tîm Cyntaf mewn gem gyda'r rhyfeddaf yn erbyn Bwcle ar nos Wener wlyb a gwyntog. Gêm yn llawn goliau, cynnwrf, a chosbi chwaraewyr o flaen 250 o gefnogwyr. Enillodd Dinbych o 6-5 gyda goliau gan Nathan Brown, Matthew Worrall (2), Ryan Kershaw, a Craig Pritchard. Collwyd y gem nesaf o 2-1 yn erbyn Porthmadog gyda Matthew Worrall yn sgorio i Ddinbych. Wythnos yn ddiweddarach cafwyd buddugoliaeth o 6-2 yn erbyn Llanidloes gyda Josh Lock ( sydd ar fenthyg o TNS) yn sgorio dwy gôl. Roedd yr ail gôl yn un wefreiddiol wrth iddo redeg heibio sawl amddiffynnwr o'r llinell hanner ffordd. Golygodd y fuddugoliaeth bod CPD yn 5ed yn Adran JD y Gogledd ar hyn o bryd.

Yn anffodus daeth presenoldeb CPD yng Nghwpan JD Cymru i ben wrth golli o 3-0 mewn gêm gartref yn erbyn y Fflint gyda'r ymwelwyr yn llwyr haeddu ei buddugoliaeth.

Roedd y clwb yn falch o glywed fod ein hamddiffynwr, Harry Lockley, wedi derbyn galwad ar ddiwedd y mis wnaiff arbed ei fywyd. Fe glywodd y gŵr ifanc 21 oed fod aren addas wedi ei darganfod iddo. Cafodd lawdriniaeth yr wythnos hon ac mae bellach yn gwella ar ôl y trawsblaniad. Bu Harry yn ymladd a'i gyflwr a roddodd ben ar ei chwarae ym mis Ionawr eleni er iddo ddychwelyd i chwarae'r tymor yma. Mae'n debygol o golli gweddill y tymor. Mae pawb yn y clwb yn falch o glywed y newyddion a fydd yn trawsnewid bywyd a gyrfa bêl-droed Harry.

Ar ddiwedd Hydref , fe welwyd sgoriwr toreithiog Dinbych yn ystod y tymhorau diweddar, Jake Walker, yn symud at ein cymdogion Llanelwy. Ymddangosodd 146 o weithiau i Ddinbych gan sgorio 94 gwaith. Gwnaeth hyn Jake yn ffefryn yn y clwb. Fodd bynnag, y tymor hwn, prin oedd ei ymddangosiadau ac felly doeth y penderfyniad i symud i dîm arall. Mae'n gadael gyda dymuniadau gorau'r clwb.

Daeth terfyn ar gyfnod heb golli'r ail dîm ,dan arweiniad Liam Nash, wrth iddynt golli o 2-0 yn erbyn Airbus Broughton. Cyn hynny enillwyd 5 gêm yn olynol sy'n golygu bod y tîm yn 5ed yn y gynghrair. Yn gynharach yn y mis llwyddodd y tîm i goro'r tîm ar frig y gynghrair o 3-0. Y sgorwyr oedd y chwaraewr 16 oed Rhys Lloyd (2) ac Andy Thomas. Mewn gêm oddi cartref yn erbyn Porthmadog cafwyd buddugoliaeth o 6-4 gyda Rhys Lloyd (2), Andy Thomas, Alex Cyra, ac Owen Herbert yn sgorio.

Mae Tîm Merched y clwb, dan arweiniad Ellen Lawson, ar rediad da gan ennill 3 gêm yn olynol yn ddiweddar .Ar ôl buddugoliaeth yn y gynghrair o 6-2 yn erbyn Belle Vue, cafwyd buddugoliaeth yr wythnos wedyn yn erbyn yr un tîm o 9-0 yn y gwpan. Daeth y fuddugoliaeth nesaf o 3-0 yn erbyn Berriew gyda goliau gan Megan Edwards, Lucy Morris, a Lowri Claybrook. Mae'r rhediad da o ganlyniadau yn golygu bod y tîm wedi codi i'r 4ydd safle yng Nghynghrair Merched Gogledd Cymru.

**2 lun tudalen gefn**



# Dinbych yn Blodeuo

Ar ôl cyffro ennill Aur a 'Thref Orau Cymru' cystadleuaeth Cymru yn ei Blodau am y bedwaredd gwaith, a braint cael cynnal y Seremoni Wobrwyo genedlaethol yn Ninbych, mae'n braf i gael dychwelyd i'r tasgau 'caib a rhaw' arferol. Mae'n adeg i docio a thacluso cyn y gaeaf, plannu blodau ar gyfer y gwanwyn a phlannu planhigion lluosflwydd erbyn yr haf nesaf. Mae'r gwybodusion yn dweud erbyn hyn ei bod yn well i blannu planhigion lluosflwydd yn yr hydref yn hytrach na'r gwanwyn oherwydd y newid yn yr hinsawdd, fel eu bod yn medru elwa o law y gaeaf ac ymsefydlu yn gysurus cyn y gwres a'r sychder posibl.





Roedd hi'n orchwyl eithaf trist ar Hydref 9fed i dynnu'r blodau pinc yng nghanol y dref, oedd yn dal i flodeuo'n braf, ond dyna fu raid ei wneud a phlannwyd y bylbiau a'r planhigion ar gyfer y gwanwyn. Dyma Steve wrth y gwaith:



Dee blannodd y Plannwr Croeso mawr wrth gylchfan yr Ystad Ddiwydiannol:



'Cylchfan yr Ieir' yw ein henw ni am y gylchfan hon, am resymau amlwg:
Cawsom gyfle i gynorthwyo Tîm Bioamrywiaeth Cyngor Sir Ddinbych i blannu 1,400 o flodau gwyllt ar y gylchfan hon. Tyfwyd y blodau gwyllt ym meithrinfa'r Sir yn Llanelwy, lle maen nhw'n gobeithio tyfu 5,000 o blanhigion y flwyddyn, ynghyd â'r un nifer o goed, i hybu bioamrywiaeth o fewn y sir. Edrychwn ymlaen at weld y dolydd wedi'u gorchuddio â blodau a pheillwyr prysur.
Mae'n gyffrous bob amser i gael cymryd rhan mewn digwyddiadau yn y dref. Diolch i bawb a'n cefnogodd yn y Wledd Eirin, yn arbennig Wendy a'r Coop am eu cefnogaeth brwdfrydig, hael. Dyma'r stondin:



Edrychwn ymlaen at Ŵyl Tŷ Gwyrdd ar Dachwedd 18fed hefyd.





Diolch i Chris Tad a wirfoddolodd i osod y meinciau newydd 'na ellir eu fandaleiddio' yn eu lle ym Mharc Isaf. Mae'n hyfryd i weld pobl yn mwynhau eu defnyddio.

**I SYLW DOSBARTHWYR LLEOL Y BIGWN**

Diolch am gasglu enwau ac arian y tanysgrifwyr. Mae angen trosglwyddo'r arian i'r trysorydd cyn diwedd mis Tachwedd os gwelwch yn dda.

# Clwb Rygbi Dinbych

**Hanes ar dudalen 25**





Dyma gefnwr talentog a phoblogaidd Dinbych Harry Lockley, sydd newydd dderbyn trawsblaniad aren.




Bydd pêl droed rhyngwladol yn ôl yn Central Park yn gynnar ym mis Tachwedd, pan fydd Tîm Cymru (Dan 16) yn cystadlu â Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon.



Dreigiau—Cefn (ch-dd) Mared, Olivia, Margaret, Eva, Sioned. Blaen (ch-dd) Elenid, Leila, Aydin, Kate  hanes tudalen  25



Llongyfarchiadau i ti Gwion ar gwblhau Hanner Marathon Caerdydd ar Hydref 1af mewn 1 awr, 44 munud gan lwyddo i gasglu dros £550 at Wasanaeth Ambiwlans Sant Ioan (St John's). Dal ati gan Dad, Mam, Aron a Gwenno xx